Profiadau Rhai sy'n Sefyll Gerllaw o

# Drais a Cham-drin Domestig yn ystod y Pandemig COVID-19

Uned Atal Trais
Violence Prevention Unit

University of Exeter

**Astudiaeth Dulliau Cymysg i Brofiadau Rhai Sy'n Sefyll Gerllaw o Drais a Cham-Drin Domestig yn Ystod y Pandemig COVID-19**

**Y Tîm Ymchwil**

Dr Alex Walker[1], Dr Rachel A Fenton[2], Lara C Snowdon[1], Bryony Parry[1], Emma R Barton[1], Yr Athro Catherine Donovan[3] a'r Athro Mark A Bellis[4]

[1] Uned Atal Trais Cymru,
[2] Ysgol y Gyfraith, Prifysgol Caerwysg,
[3] Adran Cymdeithaseg, Prifysgol Durham,
[4] Coleg y Gwyddorau Dynol, Prifysgol Bangor.

**[Hydref 2021]**

ISBN: 978-1-78986-154-456

© 2021 Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru.
Gellir atgynhyrchu'r deunydd a gynhwysir yn y ddogfen hon o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored (OGL) [www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3/](http://www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3/) ar yr amod y caiff ei wneud yn gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Cydnabyddiaeth i'w nodi i Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru. Oni noder fel arall, mae'r hawlfraint yn y trefniant teipograffyddol, y dyluniad a'r cynllun yn perthyn i Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Cyllidwyd yr adroddiad hwn gan Iechyd Cyhoeddus Cymru.
Cyflwynwyd yr astudiaeth hon gan Uned Atal Trais Cymru a Phrifysgol Caerwysg.

Ar gyfer gohebiaeth sy'n ymwneud â'r adroddiad hwn, cysylltwch â
**Lara.Snowdon@wales.nhs.uk**

**Uned Atal Trais Cymru**
**Siambrau'r Farchnad**
**5-7 Heol y Santes Fair**
**Caerdydd**
**CF10 1AT**

# Tabl cynnwys


| | |
|---|---|
| **Cydnabyddiaeth** | **5** |
| **Acronymau** | **6** |
| **Crynodeb Gweithredol** | **7** |
| **1.0 Cyflwyniad** | **11** |
| 1.1 Cefndir Trais a Cham-drin Domestig yng Nghymru | 11 |
| 1.2 Diffiniad | 11 |
| 1.3 Y Cyd-Destun Polisi yng Nghymru | 12 |
| 1.4 Covid-19 a Thrais a Cham-drin Domestig yng Nghymru | 13 |
| 1.5 Trais a Cham-Drin Domestig - Y Rhai sy'n Sefyll Gerllaw | 14 |
| 1.6 Sail Resymegol a Nodau'r Astudiaeth | 15 |
| **2.0 Adolygiad Llenyddiaeth** | **16** |
| 2.1 Strategaeth Chwilio Llenyddiaeth | 16 |
| 2.2 Credoau Rhai Sy'n Sefyll Gerllaw yn y Gymuned | 17 |
| 2.3 Rhaglenni Ymyriad Rhai Sy'n Sefyll Gerllaw | 18 |
| 2.4 Rhai sy'n Sefyll Gerllaw yn ystod COVID-19 | 18 |
| **3.0 Methodoleg** | **19** |
| 3.1 Y Cwestiwn a Nodau Ymchwil | 19 |
| 3.2 Trosolwg o Ddulliau | 19 |
| 3.3 Datblygu Deunyddiau | 20 |
| Arolwg | 20 |
| Cyfweliadau | 20 |
| 3.4 Meini Prawf Cynnwys | 21 |
| 3.5 Moeseg | 21 |
| 3.6 Lledaenu | 21 |
| 3.7 Dadansoddi'r Data | 21 |
| **4.0 Canlyniadau** | **22** |
| 4.1 Ymatebwyr I'r Arolwg | 22 |
| 4.2 Ymatebwyr Cyfweliad | 22 |
| 4.3 Profiadau Rhai Sy'n Sefyll Gerllaw | 23 |
| 4.4 Gweithredoedd, Cymhellion a Rhwystrau Rhai Sy'n Sefyll Gerllaw | 26 |
| 4.5 'Pryfocio' Rhywiaethol' | 31 |
| 4.6 'Pryfocio' ynghylch Trais Rhywiol a Domestig | 31 |
| **5.0 Trafodaeth** | **32** |
| 5.1 Canfyddiadau Allweddol | 32 |
| 5.2 Cyfyngiadau | 35 |
| 5.3 Camau Gweithredu yn y Dyfodol | 36 |
| Dewisiadau o ran Polisi | 36 |
| Dewisiadau o ran Arfer | 37 |
| Dewisiadau o ran Ymchwil | 38 |
| **6.0 Sylwadau i Gloi** | **39** |
| **Cyfeiriadau** | **40** |
| Atodiadau | 44 |
| A: Demograffeg Cyfranogwyr | 44 |
| B: Tablau Data ar gyfer DVA a Welwyd yn Ystod y Pandemig | 45 |
| C: Tablau Data ar gyfer Pryfocio Rhywiaethol | 62 |
| Ch: Tablau Data ar gyfer Pryfocio o ran Trais Rhywiol a Domestig | 64 |

# Rhestr Tablau


| | | |
|---|---|---|
| **TABL 1:** | Amlder a chanran y cyfranogwyr a welodd y gwahanol ymddygiadau DVA | **25** |
| **TABL 2:** | Amlder cyfranogwyr o bob grŵp oedran a gymerodd gamau | **26** |
| **TABL 3:** | Canran y bobl a gymerodd gamau wrth gymryd rhywedd y cyflawnwr a'r dioddefwr i ystyriaeth | **27** |
| **TABL 4:** | Perthnasoedd arwyddocaol rhwng nodweddion rhai sy'n sefyll gerllaw a chymhellion/rhwystrau i weithredu | **29** |
| **TABL 5:** | Demograffeg cyfranogwyr | **44** |
| **TABL 6:** | Amlder yr ymddygiadau a welwyd | **45** |
| **TABL 7:** | Canfyddiadau chi-sgwariog ar gyfer ymddygiadau a welwyd a demograffeg cyfranogwyr | **46** |
| **TABL 8:** | Canlyniadau chi-sgwariog ar gyfer demograffeg cyfranogwyr a chymryd camau yn erbyn DVA | **48** |
| **TABL 9:** | Canlyniadau chi-sgwariog manylion am DVA a chymryd camau | **51** |
| **TABL 10:** | Canlyniadau chi-sgwariog ar gyfer camau gweithredu, cymhellion a rhwystrau ar gyfer pob ymddygiad DVA a welwyd | **53** |
| **TABL 11:** | Canlyniadau chi-sgwariog ar gyfer demograffeg cyfranogwyr a chymhellion ar gyfer gweithredu | **56** |
| **TABL 12:** | Canlyniadau chi-sgwariog ar gyfer demograffeg cyfranogwyr a rhwystrau i gymryd camau | **59** |
| **TABL 13:** | Canlyniadau chi-sgwariog ar gyfer demograffeg cyfranogwyr a gweld pryfocio rhywiaethol | **62** |
| **TABL 14:** | Manylion y pryfocio rhywiaethol a welwyd | **63** |
| **TABL 15:** | Canlyniadau chi-sgwariog ar gyfer demograffeg cyfranogwyr a bod yn dyst i bryfocio o ran trais rhywiol a domestig | **64** |
| **TABL 16:** | Manylion y pryfocio ynghylch trais rhywiol a domestig a welwyd | **65** |


# Rhestr Ffigurau


| | | |
|---|---|---|
| **FFIGUR 1:** | Ymddygiadau a welwyd yn ystod y pandemig | **23** |
| **FFIGUR 2:** | Modd i'r rhai sy'n sefyll gerllaw ddod yn ymwybodol o ymddygiad y DVA yn y lle cyntaf | **27** |

# Cydnabyddiaeth

Yn gyntaf, hoffem ddiolch i'r holl gyfranogwyr ymchwil na fyddai'r astudiaeth hon wedi bod yn bosibl hebddynt.

Hoffem ddiolch hefyd i bawb a gefnogodd yr astudiaeth wrth i ni ddod o hyd i gymeradwyaeth. Mae'r rhain yn cynnwys cydweithwyr Iechyd Cyhoeddus Cymru o Nyrsio o Safon a Chynghreiriaid Iechyd, Llywodraethu Risg a Gwybodaeth, a'r Is-adran Ymchwil a Gwerthuso.

**Grŵp Cynghori:** Hoffai'r tîm ddiolch i aelodau'r grŵp cynghori am eu cefnogaeth drwy gydol y prosiect ymchwil hwn; Joanne Hopkins (Iechyd Cyhoeddus Cymru), Natalie Blakeborough (Iechyd Cyhoeddus Cymru), Miriam Merkova (Cymorth i Fenywod Cymru), Amy Jones (Llywodraeth Cymru), Alexa Gainsbury (Public Health England a Phrifysgol Caerwysg), Karen Hughes (Iechyd Cyhoeddus Cymru), Gemma Woolfe (Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throsedd De Cymru) a Mike Taggart (Heddlu Gogledd Cymru).

# Acronymau

| | |
|---|---|
| **COVID-19** | Coronafeirws |
| **CSEW** | Arolwg Trosedd Cymru a Lloegr |
| **DVA** | Trais a Cham-drin Domestig |
| **HCRW** | Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru |
| **HRA** | Awdurdod Ymchwil Iechyd |
| **ONS** | Swyddfa Ystadegau Gwladol |
| **PHW** | Iechyd Cyhoeddus Cymru |
| **VAWDASV** | Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol |
| **WHO** | Sefydliad Iechyd y Byd |

# Crynodeb Gweithredol

## Cefndir

Mae trais a cham-drin domestig (DVA) yn bryder mawr o ran iechyd y cyhoedd, hawliau dynol a chyfiawnder troseddol. Mae'r pandemig COVID-19 wedi gwaethygu amodau o ran DVA gydag arbenigwyr ac academyddion yn rhannu pryderon ynghylch diogelwch dioddefwyr a goroeswyr a pha mor hygyrch y mae'r gefnogaeth (*Sacco et al., 2020; Speed et al.*, 2020). Yn ystod y cyfnod hwn, bu ymchwydd mewn cysylltiadau â llinellau cymorth DVA, megis y llinell gymorth Byw Heb Ofn yng Nghymru (ONS, 2020c).

Mae'r newidiadau mewn arferion bob dydd a brofwyd gan y genedl o ganlyniad i'r pandemig wedi arwain at gynyddu ymwybyddiaeth gwahanol grwpiau o bobl o DVA. Ceir tystiolaeth o hyn ar ffurf cynnydd mewn trydydd partïon sy'n adrodd am bryderon i'r heddlu neu linellau cymorth cam-drin domestig (Ivandic et al., 2020; ONS, 2020). Mae'r astudiaeth hon, a gyflawnwyd gan Uned Atal Trais Cymru (VPU) a Phrifysgol Caerwysg, yn archwilio profiadau ac ymddygiad rhai sy'n sefyll gerllaw DVA yn ystod y pandemig COVID-19.

## Methodoleg

Ceisiodd yr astudiaeth beilot dulliau cymysg hon archwilio'r cwestiynau ymchwil canlynol:

1. Beth yw profiadau rhai sy'n sefyll gerllaw o fod yn dyst i DVA yn ystod y pandemig COVID-19?
2. Beth yw'r cymhellion a'r rhwystrau i'r rhai sy'n sefyll gerllaw gymryd camau i atal DVA yn ystod y pandemig COVID-19?
3. Beth oedd yr effaith ar y rhai sy'n sefyll gerllaw a pha gymorth sydd ei angen arnynt?

**Defnyddiodd yr astudiaeth hon arolwg ar-lein a chyfweliadau dilynol gyda chyfranogwyr yr arolwg, drwy lwyfannau ar-lein. Cynhaliwyd y gwaith o gywain data dros gyfnod o dair wythnos, rhwng 15 Chwefror 2021 ac 8 Mawrth 2021. Gofynnwyd i'r cyfranogwyr rannu eu profiadau ers i gyfnodau clo'r pandemig ddechrau yng Nghymru (Mawrth 2020).**

Datblygwyd yr arolwg ar-lein gan y tîm ymchwil yn benodol ar gyfer yr astudiaeth hon, gyda'r nod o'i addasu i'w ddefnyddio yn y dyfodol gyda chynulleidfa darged ehangach a/neu y tu hwnt i'r pandemig. Ymdriniodd yr arolwg â gwybodaeth ddemograffaidd, nodweddion personoliaeth, DVA a welwyd ers i'r pandemig ddechrau, y camau a gymerwyd, cymhellion a rhwystrau i weithredu, ac effaith y profiad ar y rhai sy'n sefyll gerllaw . Dadansoddwyd cyfanswm o 186 o ymatebion cyflawn i'r arolwg ar gyfer yr astudiaeth hon. Dadansoddwyd y data gan ddefnyddio IBM SPSS Statistics, fersiwn 24.

Cynigiwyd y cyfweliadau i bawb a gymerodd ran yn yr arolwg ar-lein. Dilynodd y cyfweliadau strwythur tebyg i'r arolwg, ond gofynnwyd i'r cyfranogwyr gynnig mwy o fanylion am eu profiad. Cwblhawyd tri chyfweliad gyda rhai sy'n sefyll gerllaw ac fe'u defnyddiwyd i gefnogi canfyddiadau'r arolwg.

## Canlyniadau

### Amlygodd y canlyniadau:

- Roedd amgylchiadau'r pandemig yn caniatáu i rai sy'n sefyll gerllaw ddod yn ymwybodol o DVA gydag ymddygiadau rheolaeth drwy orfodaeth sy'n achosi'r pryder mwyaf ymhlith cyfranogwyr (gweler adran 4.3).
- Roedd y rhan fwyaf o'r cam-drin a nodwyd gan y rhai sy'n sefyll gerllaw yn yr astudiaeth o fewn y berthynas bresennol neu gyda chyn-bartner agos, roedd menywod yn fwy tebygol o fod yn ddioddefwyr a dynion yn fwy tebygol o fod yn cyflawni'r cam-drin (gweler adran 4.4).
- Roedd teimlo'n gysylltiedig â'u cymuned yn rhagfynegydd sylweddol y byddai'r rhai sy'n sefyll gerllaw yn cymryd camau rhag-gymdeithasol mewn ymateb i'r ymddygiad a oedd wedi achosi pryder iddynt.
- Cynigiodd y rhan fwyaf o'r cyfranogwyr i gefnogi'r dioddefwr gan deimlo bod ganddynt y sgiliau cywir i allu gwneud hynny.
- Nododd y rhai na wnaethant gymryd camau mai diffyg sgiliau oedd y rheswm drosto a pheidio â gwybod beth i'w wneud.
- Cafodd y profiad o weld neu boeni am DVA effaith negyddol ar ymatebwyr yr arolwg, ac eto ni fyddai'r rhan fwyaf wedi hoffi gwneud dim mwy wrth feddwl yn ôl.
- Roedd ymatebwyr yr arolwg a ddywedodd eu bod wedi gweld pryfocio neu jôcs rhywiaethol ers i'r pandemig ddechrau wedi rhannu eu anghymeradwyaeth â'r sawl a oedd wedi'i ddweud (gweler adran 4.5).
- Roedd chwarter yr ymatebwyr i'r arolwg wedi sylwi ar gynnydd mewn jôcsrhag-gymdeithasol ers dechrau'r pandemig. Nododd y rhai sy'n sefyll gerllaw hyn eu bod wedi cymryd camau yn erbyn yr ymddygiad hwn am eu bod yn cydnabod ei fod yn broblemus (gweler adran 4.6).

## Camau Gweithredu yn y Dyfodol

### Dewisiadau Polisi

- Mae'r astudiaeth hon yn dangos bod gan y rhai sy'n sefyll gerllaw rôl bwysig o ran atal DVA yn sylfaenol. Gellid cydnabod hyn mewn polisi atal trais. Gallai annog ymddygiad rhag-gymdeithasol, pan fydd yn ddiogel i wneud hynny, fod yn flaenoriaeth yn gyffredinol ac yn enwedig yn ystod pandemig neu sefyllfaoedd brys eraill, pan nad yw gwasanaethau mor hygyrch. Gallai'r rhai sy'n llunio polisi ystyried defnyddio ymgyrchoedd ymwybyddiaeth gyhoeddus a hyfforddiant i hyrwyddo gwybodaeth am DVA, ac ymddygiad rhai sy'n sefyll gerllaw rhag-gymdeithasol a gwybodus. Gallai hyn helpu i liniaru unrhyw effaith negyddol y gallai'r profiad ei chael ar y rhai sy'n sefyll gerllaw eu hunain (gweler adran 4.4).
- Mae gwersi o'r ymchwil hon yn awgrymu y dylai ymgyrchoedd rhai sy'n sefyll gerllaw cyhoeddus fod yn amlweddog a chael eu hategu gan godi ymwybyddiaeth a gwybodaeth am yr hyn sy'n gyfystyr â DVA ar gyfer cynulleidfa gyhoeddus. Fel a nodwyd yn adran 4.4, roedd y rhan fwyaf o'r cyfranogwyr wedi gweld ymddygiadau DVA mewn perthnasoedd agos, pan oedd y cyflawnwr yn ddyn, a'r dioddefwr yn fenyw. Dylai ymgyrchoedd bwysleisio y gall cam-drin ddigwydd mewn amrywiaeth o berthnasoedd, waeth beth fo'u hunaniaeth o ran rhywedd, rhywioldeb, oedran neu ethnigrwydd.
- Dylai'r rhai sy'n llunio polisi ystyried sut y gallant ymgysylltu â chynulleidfaoedd targed gwahanol o ran cynyddu gwybodaeth ac ymwybyddiaeth, ac fel rhai sy’n sefyll gerllaw rhag-gymdeithasol. Yn benodol, fel a nodwyd yn adran 4.1, menywod oedd y rhan fwyaf o'r cyfranogwyr yn yr astudiaeth hon. Dylid rhoi sylw arbennig i sicrhau bod dynion yn cymryd rhan mewn ymdrechion rhai sy'n sefyll gerllaw. Dylai ymgyrchoedd codi ymwybyddiaeth anelu at gynyddu ymdeimlad o gyfrifoldeb a chymhelliant i weithredu ac felly dod gyda chynnig o hyfforddi rhai sy'n sefyll gerllaw seiliedig ar dystiolaeth i alluogi a grymuso rhai sy’n sefyll gerllaw i symud (yn ddiogel) drwy ddamcaniaeth newid ymddygiad (gweler adran 5.1).
- Nododd y data y canfuwyd bod ymdeimlad o gymuned yn rhagfynegydd sylweddol y byddai rhai sy'n sefyll gerllaw yn cymryd camau rhag-gymdeithasol yn erbyn DVA (gweler adran 4.4). Felly, gallai polisïau anelu at feithrin, cynnal ac annog yr ymdeimlad hwn o gymuned ymhellach fel ffactor cyfrannol, gan gymell rhai sy'n sefyll gerllaw i gymryd camau yn erbyn DVA.

**Mae nifer cynyddol o alwadau'n cael eu cofnodi i linellau cymorth cam-drin domestig a'r heddlu gan drydydd partïon pryderus (cymdogion, ffrindiau a theulu).**

## Dewisiadau o ran Arfer

- Dangosodd yr ymchwil fod galw am raglenni hyfforddi rhai sy'n sefyll gerllaw i rymuso a gwella sgiliau rhai sy'n sefyll gerllaw i gymryd camau rhag-gymdeithasol (gweler adran 4.4). Rhaid i raglenni hyfforddi rhai sy'n sefyll gerllaw fod yn seiliedig ar dystiolaeth a damcaniaeth ac mae'n rhaid iddynt fynd â phobl drwy'r broses o newid (gweler adran 2.3).
- Dylid ymgorffori damcaniaeth normau cymdeithasol mewn rhaglenni, deunyddiau ac ymgyrchoedd hyfforddi rhai sy'n sefyll gerllaw. Am enghraifft o raglen hyfforddi rhai sy'n sefyll gerllaw, gweler yr ymyriad DVA rhai sy'n sefyll gerllaw, Active Bystander Communities (gweler adran 2.3). Fel a nodwyd yn adran 4.4, mae teimlad y rhai sy'n sefyll gerllaw eu bod yn meddu ar y set sgiliau gywir i weithredu yn hanfodol. Dylid ymgorffori amrywiaeth o ymatebion y rhai sy'n sefyll gerllaw mewn ymgyrchoedd, deunyddiau a rhaglenni hyfforddi rhai sy'n sefyll gerllaw. Gellid cyflwyno'r rhain ar draws cymunedau gan y gallai rhai sy'n sefyll gerllaw fod yn hanfodol wrth atal DVA yn sylfaenol, yn y pandemig a'r tu hwnt iddo.
- Wrth ystyried ymgyrchoedd ymwybyddiaeth gyhoeddus a dargedir at rai sy'n sefyll gerllaw, pan fo'n briodol, dylai sefydliadau egluro pa wasanaethau y maent yn eu cynnig a allai fod yn berthnasol i'r rhai sy'n sefyll gerllaw. Fel a drafodir yn adran 5.1, mae'r rhai sy'n sefyll gerllaw yn fwy tebygol o rannu eu pryderon os ydynt yn gwybod sut i wneud hynny. Byddai atgyfeirio clir at wasanaethau rhai sy'n sefyll gerllaw perthnasol yn caniatáu i'r rhai sy'n sefyll gerllaw gael mwy o gyfle i adeiladu gwybodaeth am yr hyn sydd ar gael.
- Mae nifer cynyddol o alwadau'n cael eu cofnodi i linellau cymorth cam-drin domestig a'r heddlu gan drydydd partïon pryderus (cymdogion, ffrindiau a theulu) (gweler adran 1.4). Mae canfyddiadau'r astudiaeth hon yn dangos bod rhai sy'n sefyll gerllaw yn aml yn cael eu heffeithio'n negyddol gan eu profiad (gweler adran 4.4). Gallai gwasanaethau rheng flaen, gan gynnwys yr heddlu a gwasanaethau DVA arbenigol, ystyried datblygu canllawiau a hyfforddiant ar gyfer trinwyr galwadau ac ymatebwyr cyntaf i gefnogi rhai sy'n sefyll gerllaw sy'n cysylltu.

## Opsiynau Ymchwil

- Mae'r astudiaeth beilot hon wedi profi methodoleg, lledaenu a maes pwnc rhai sy'n sefyll gerllaw o ran DVA yn ystod y pandemig COVID-19. Dylid diwygio'r broses o ledaenu a recriwtio i arolygon mewn ymchwil yn y dyfodol, er mwyn optimeiddio'r broses o recriwtio dynion, grwpiau BAME, a phobl oedrannus (gweler adran 5.2). Dylai recriwtio hefyd barhau am gyfnod hirach er mwyn sicrhau'r nifer mwyaf posib o bobl ac ar raddfa fwy gyda sampl ar lefel y boblogaeth.
- Nododd ymatebwyr yr arolwg fod eu profiad o weithredu wedi cael effaith negyddol arnynt eu hunain, ac eto nododd mwy na hanner nad oedd unrhyw gamau pellach y byddent wedi eu cymryd (gweler adran 4.4). Gallai ymchwil yn y dyfodol archwilio sut y gellid lliniaru'r effeithiau negyddol hyn gyda rhaglenni hyfforddi rhai sy'n sefyll gerllaw a/neu adnoddau cymorth digonol eraill.

- Roedd y rhai â mwy o ymdeimlad o gymuned yn llawer mwy tebygol o weithredu wrth ymateb i'w pryderon (gweler adran 4.4). Dylai ymchwil yn y dyfodol bennu beth mae "ymdeimlad o gymuned" yn ei olygu i bob cyfranogwr, megis ardal, crefydd, grŵp chwaraeon ac ati a sut mae'r ymdeimlad hwn o gymuned yn adlewyrchu'r mathau o ymddygiad a welwyd neu'r mathau o gamau a gymerwyd.
- Gallai ymchwil bellach hefyd archwilio'r anhawster cynhenid wrth ofyn i bobl gymryd rhan mewn ymchwil am y DVA y gallent fod wedi'i weld pan na fyddant efallai'n cydnabod pa ymddygiadau yw DVA (gweler adran 5.1 am drafodaeth ar hyn o beth). Gellid cyflawni hyn yn gyntaf drwy gynyddu ymwybyddiaeth y cyhoedd o'r hyn yw DVA, ac yn ail, drwy ddulliau ymgyrchoedd recriwtio amgen a allai gynnig diffiniadau ac enghreifftiau o ymddygiadau mwy manwl.

## I gloi

**Ceisiodd yr astudiaeth hon archwilio profiadau ac ymddygiad rhai sy'n sefyll gerllaw o ran DVA yn ystod y pandemig COVID-19 drwy ymagwedd dulliau cymysg gyda'r cyhoedd, gan gynnwys arolygon a chyfweliadau. Er iddi gael ei gweithredu ar raddfa fach, yr astudiaeth hon oedd y cyntaf o'i bath ac mae'n rhoi cipolwg newydd ar brofiadau rhai sy'n sefyll gerllaw yn ystod pandemig byd-eang.**

Mae canfyddiadau'r astudiaeth hon yn awgrymu bod amgylchiadau'r pandemig wedi cynyddu cyfle i bobl i fod yn rhai sy'n sefyll gerllaw gweithredol mewn achosion o ymddygiad DVA. Adroddodd cyfranogwyr eu bod yn fwy ymwybodol o ymddygiadau 'pryderus' o ganlyniad i dreulio mwy o amser gartref, ynghyd â llai o 'dynnu sylw' oddi wrth normau bywyd cymdeithasol a gwaith rheolaidd, ynghyd ag ymdeimlad cynyddol o gymuned. Teimlodd cyfranogwyr hefyd fod amgylchiadau'r pandemig wedi cynyddu gallu cyflawnwyr i reoli'r dioddefwr, gyda rheolaeth drwy orfodaeth yn ymddygiad a welwyd amlaf.

Roedd derbyn hyfforddiant DVA, neu deimlo eu bod yn meddu ar y sgiliau cywir i weithredu, yn rhagfynegydd cryf o ymatebion rhai sy'n sefyll gerllaw rhag-gymdeithasol. Nododd rhai sy'n sefyll gerllaw fod darparu gwybodaeth a hyfforddiant i rai sy'n sefyll gerllaw yn ddefnyddiol i liniaru rhwystrau i weithredu a'u harwain ar sut i gymryd camau rhag-gymdeithasol yn erbyn DVA.



**Mae trais a cham-drin domestig (DVA) yn fater pwysig o ran iechyd y cyhoedd, cyfiawnder troseddol a hawliau dynol. Mae'n achos sylweddol afiechyd ac anghydraddoldeb, ac mae'n cael effeithiau cymdeithasol, seicolegol ac economaidd andwyol ar unigolion, teuluoedd a chymunedau drwy gydol oes (WHO, 2021).**

# 1.0 Cyflwyniad

## 1.1 Cefndir Trais a Cham-drin Domestig yng Nghymru

Mae trais a cham-drin domestig (DVA) yn fater pwysig o ran iechyd y cyhoedd, cyfiawnder troseddol a hawliau dynol. Mae'n achos sylweddol afiechyd ac anghydraddoldeb, ac mae'n cael effeithiau cymdeithasol, seicolegol ac economaidd andwyol ar unigolion, teuluoedd a chymunedau drwy gydol oes (WHO, 2021). Mae byw heb ofni trais a cham-drin yn ofyniad sylfaenol ar gyfer iechyd a lles. Noda'r Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth Iechyd a Gofal (NICE, 2014): *"Mae'r gost, yn nhermau dynol ac economaidd, mor arwyddocaol fel bod hyd yn oed ymyriadau nad ydynt ond ychydig bach yn effeithiol yn gost-effeithiol"*. Nododd adroddiad gan y Swyddfa Gartref yn amcangyfrif costau economaidd a chymdeithasol DVA yng Nghymru a Lloegr y gost flynyddol fel £66 biliwn, gyda 71% o hynny'n cael ei briodoli i fynd i'r afael â'r niwed corfforol ac emosiynol a brofir gan ddioddefwyr (Oliver et al., 2019).

Gall DVA arwain at farwolaeth. Bob dydd, mae 137 o fenywod yn cael eu lladd yn fyd-eang gan aelod o'r teulu. Amcangyfrifwyd bod mwy na hanner (50,000) o'r 87,000 o fenywod a laddwyd yn fwriadol yn 2017 wedi'u lladd gan aelodau teulu neu bartneriaid agos. Lladdwyd mwy na thraean o'r menywod hyn (30,000) gan bartner presennol neu gyn-bartner agos (Swyddfa'r Cenhedloedd Unedig ar Gyffuriau a Throseddau, 2019). Rhwng mis Mawrth 2018 a 2019, cofnododd heddluoedd Cymru 80,924 o ddigwyddiadau cysylltiedig â DVA (ONS, 2020a), ond nid yw data'r heddlu a gofnodwyd ond yn tynnu sylw at ffracsiwn o'r darlun go iawn, gan fod achosion yn aml yn mynd heb eu cofnodi. Amcangyfrifir bod cyfanswm o 2.3 miliwn o oedolion 16-74 oed sy'n byw yng Nghymru a Lloegr wedi profi DVA yn ystod y flwyddyn ddiwethaf (ONS, 2020a).

Gall unrhyw un brofi DVA, waeth beth fo'u hunaniaeth o ran rhywedd, oedran, rhywioldeb, ethnigrwydd, galwedigaeth ac incwm.
Fodd bynnag, mae deall DVA yn gofyn am werthfawrogiad ei fod yn rhan o batrwm cymdeithasol o drais gwrywaidd tuag at fenywod (Hester a Lilley, 2014), gyda data'n dangos mai menywod a merched yn bennaf sy'n ddioddefwyr ac yn oroeswyr DVA a gyflawnir gan ddynion a bechgyn (ONS, 2020b). Mae menywod a merched yn llawer mwy tebygol o brofi mathau difrifol o gam-drin, gan gynnwys trais corfforol a rhywiol sy'n arwain at anaf neu farwolaeth (Hester, 2013). At hynny, maent yn fwy tebygol o brofi cam-drin corfforol, emosiynol neu seicolegol dro ar ôl tro. Rhwng 2016 a 2018, roedd 270 o'r 366 o ddioddefwyr dynladdiad domestig, yn y DU, a laddwyd gan bartner presennol neu gyn-bartner agos yn fenywod (ONS, 2019).

## 1.2 Diffiniad

**Diffinir trais neu gam-drin domestig fel "*unrhyw achos neu batrwm o achosion o ymddygiad gorfodi, cymhellol neu fygythiol, trais neu gamdriniaeth rhwng pobl 16 oed neu'n hŷn sydd yn neu sydd wedi bod yn aelodau teulu neu mewn partneriaeth agos beth bynnag eu rhywedd neu rywioldeb. Gall gwmpasu'r ffurfiau ar gamdriniaeth a ganlyn ond nid yw'n gyfyngedig iddynt: seicolegol, corfforol, rhywiol, ariannol ac emosiynol* (Llywodraeth y DU, 2013)."**

**Yn 2015, pasiodd Llywodraeth Cymru 'Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru)' (y Ddeddf o hyn ymlaen); y darn cyntaf o ddeddfwriaeth yn y Deyrnas Unedig i fynd i'r afael yn benodol â thrais yn erbyn menywod yn hytrach na thrais domestig yn gyffredinol.**

## 1.3 Y Cyd-destun Polisi yng Nghymru

Mae trais a cham-drin domestig yn fater hawliau dynol, a gydnabyddir mewn cyfamodau a chonfensiynau cenedlaethol a rhyngwladol, yn fater cyfiawnder troseddol, ac yn fater iechyd cyhoeddus. Mae atal trais yn erbyn menywod yn flaenoriaeth ar gyfer:

- y Cenhedloedd Unedig (UN), drwy'r '*Confensiwn ar Ddileu Pob Ffurflen ar Wahaniaethu yn erbyn Menywod*'
- yr UE drwy '*Gonfensiwn Istanbul*'
- Llywodraeth y DU drwy '*Strategaeth i Roi Terfyn ar Drais yn Erbyn Menywod a Merched 2016-2020*'
- Llywodraeth y DU drwy '*Strategaeth i Roi Terfyn ar Drais yn Erbyn Menywod a Merched 2021-2024*'
- Llywodraeth Cymru drwy '*Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015*'

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei strategaeth genedlaethol gyntaf yn 2005. Mabwysiadodd '*Mynd i'r Afael â Cham-drin Domestig*' (Llywodraeth Cymru, 2005) fframwaith seiliedig ar hawliau sy'n gwarantu'r hawl i bob dinesydd fyw'n rhydd rhag trais a cham-drin (McCarry et al., 2018). Wedi hynny roedd y '*Strategaeth Hawl i fod yn Ddiogel*'. Canolbwyntiodd y cynllun chwe blynedd ar bedwar maes allweddol; atal, codi ymwybyddiaeth, cefnogi dioddefwyr, gwella ymateb gwasanaethau cyfiawnder troseddol yn ogystal â gwasanaethau iechyd (a gwasanaethau cysylltiedig (Llywodraeth Cymru, 2010). Yn 2012, aeth papur gwyn Llywodraeth Cymru ar drywydd gwell addysg ac ymwybyddiaeth a gwasanaethau mwy integredig (Llywodraeth Cymru, 2012).

Yn 2015, pasiodd Llywodraeth Cymru '*Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru)*' (y Ddeddf o hyn ymlaen); ty darn cyntaf o ddeddfwriaeth yn y Deyrnas Unedig i fynd i'r afael yn benodol â thrais yn erbyn menywod yn hytrach na thrais domestig yn gyffredinol. Prif ddiben y Ddeddf oedd gwella ymateb y sector cyhoeddus mewn perthynas ag atal gweithredoedd trais ar sail rhywedd, cam-drin domestig, a thrais rhywiol, amddiffyn dioddefwyr a chymorth i'r rhai yr effeithir arnynt. Mae'r Ddeddf yn arwyddocaol ar gyfer menywod gan ei fod yn nodi camau ymarferol y dylai llywodraeth genedlaethol a lleol a chyrff y sector cyhoeddus eu rhoi ar waith i gydweithio i atal trais yn erbyn menywod. Mae'r Ddeddf hefyd yn ceisio cryfhau'r cymorth sydd ar gael i ddioddefwyr trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol (VAWDASV) drwy wella ymateb y sector cyhoeddus a chysondeb y gwasanaethau a ddarperir drwy ddarparu ffocws strategol gydag ymagwedd ataliol (Price et al., 2020, Jurasz, 2018).

## 1.4 COVID-19 a Thrais a Cham-drin Domestig yng Nghymru

Ers dechrau pandemig y Coronafeirws (COVID-19), mae gwledydd ledled y byd wedi gweithredu mesurau amrywiol i gyfyngu ar ei effaith. I'r rhai sy'n byw yng Nghymru, roedd y mesurau hyn yn cynnwys cadw pellter cymdeithasol, ynysu a chyfnodau clo, a chau siopau manwerthu, tafarndai a bariau, cyfleusterau hamdden, addoldai a rhai mannau cyhoeddus. Dywedwyd wrth bobl am weithio o gartref lle bynnag yr oedd modd ac i adael dim ond ar gyfer siopa hanfodol ac ymarfer corff dyddiol. Mae'r cyfyngiadau hyn wedi amrywio o ran dwyster a dyluniad ers cyfnod clo cychwynnol Cymru ym mis Mawrth 2020. Er mai eu bwriad yw cadw'r wlad yn ddiogel, i ddioddefwyr DVA, efallai y byddeu heffaith yn gwbl groes i hynny (Campbell, 2020).

*I'r rhai sy'n profi DVA, mae'r pandemig wedi creu "storm berffaith"* gan fod amodau ar gyfer DVA wedi'u gwaethygu (Cymorth i Fenywod Cymru, 2020). Er bod pobl yn cael eu hannog i weithio gartref ac o dan "glo", mae dioddefwyr wedi cael eu gorfodi i aros gyda'u camdrinwyr am gyfnodau estynedig gyda gallu cyfyngedig i gael gafael ar gymorth neu adael y sefyllfa. Mae hyn wedi rhoi mwy o agosrwydd at ddioddefwyr ar gyfer camdrinwyr, y cyfle i reoli'r defnydd o'r ffôn, defnydd o'r rhyngrwyd, cyllid, atal mynediad i wasanaethau meddygol (A&E, atal cenhedlu ac ati), cyfyngu ar gyswllt â phobl eraill ac atal y dioddefwr rhag cael mynediad at rwydweithiau cymorth (Sacco et *al.*, 2020; Speed et *al.*, 2020; Kofman a Garfin, 2020). Mae'n debygol y gallai ymddygiad camdrinwyr fod wedi'i waethygu ymhellach gan y mathau o straen seicolegol a achoswyd gan y pandemig, gan gynnwys pryderon am ddiogelwch ariannol, cyflogaeth a gofal plant (Snowdon et *al.*, 2020; Kaukinen, 2020).

Mae arbenigwyr yn awgrymu bod "*pandemig cysgodol*" wedi digwydd ochr yn ochr â'r pandemig COVID-19, gan fod lefelau DVA wedi bod yn cynyddu "*y tu ôl i ddrysau caeedig*" ((Menywod y Cenhedloedd Unedig, 2020). Ar ddechrau'r pandemig, cyhoeddodd Sefydliad Iechyd y Byd ganllawiau i'r rhai sy'n llunio polisi yn eu hannog i sicrhau bod aelodau o'r cyhoedd yn gwybod pa wasanaethau oedd ar gael iddynt o hyd o ran DVA (Pearson et *al.*, 2021). Mae pryderon ynglŷn â *Llinell Gymorth Byw Heb Ofn Cymorth i Fenywod Cymru*[1] wedi cynyddu'n sylweddol. Mae'r cynnydd hwn wedi'i nodi ar draws pob sianel: galwadau (41%), e-byst (66%), sgyrsiau dros y we (10%) a negeseuon testun (768%) (SYG, 2020c). Mae'r *data Byw Heb Ofn hefyd* yn dangos cynnydd mewn trydydd partïon (cymdogion, ffrindiau, teulu, cydweithwyr) yn cysylltu â'r llinell gymorth i gael cymorth a chyngor ar yr hyn y gallant ei wneud dros rywun y maent yn pryderu amdanynt (ONS, 2020c) a bu cynnydd yn hyd, difrifoldeb a chymhlethdod galwadau (Uned Atal Trais Cymru, 2020). Cefnogir y tueddiadau hyn gan Ivandic et al. (2020) a ganfu gynnydd mewn galwadau cam-drin domestig i'r heddlu gan drydydd partïon, yn enwedig mewn ardaloedd dwysedd uchel. Mae hyn yn awgrymu bod y canllawiau "*aros gartref*" nid yn unig wedi cynyddu ond wedi amlygu grwpiau newydd a gwahanol o bobl sy'n gweld neu sydd â phryderon am DVA.

**Mae pryderon a gofnodwyd gyda Llinell Gymorth Byw Heb Ofn Cymorth i Fenywod Cymru wedi cynyddu'n sylweddol. Mae'r cynnydd hwn wedi'i nodi ar draws pob sianel:**

| 41% | 66% | 10% | 768% |
|---|---|---|---|
| Galwadau | E-byst | Sgyrsiau dros y we | Negeseuon testun |

[1] Mae'r Llinell Gymorth Byw Heb Ofn yn llinell gymorth am ddim i unrhyw un yng Nghymru sy'n profi neu sydd â phryderon am VAWDASV

## 1.5 Trais a cham-drin domestig - Y Rhai sy'n Sefyll Gerllaw

Mae rhai sy'n sefyll gerllaw yn "*dystion i ymddygiad negyddol (argyfwng, trosedd, ymddygiad sy'n torri rheol) sydd, oherwydd eu presenoldeb, yn cael cyfle i gamu i mewn i ddarparu cymorth, cyfrannu at yr ymddygiad negyddol neu ei annog mewn rhyw ffordd, neu sefyll a gwneud dim ond arsylwi*" (Banyard, 2015, tt. 8). Mae pawb yn rhywun sy'n sefyll gerllaw, drwy'r amser. Rydym yn dyst i ddigwyddiadau sy'n datblygu o'n cwmpas drwy'r amser. Gall rhai o'r digwyddiadau hyn gael eu cydnabod fel rhai problemus, ac efallai y byddwn yn penderfynu gwneud neu ddweud rhywbeth, bod yn rhai sy'n sefyll gerllaw gweithredol, neu wneud dim ac aros yn rhai sy'n sefyll gerllaw goddefol. Mae llawer o ffactorau a fydd yn dylanwadu ar pam y penderfynwn ymyrryd ai peidio (Fenton *et al.*, 2016).

### Y ddamcaniaeth o newid sy'n dylanwadu ar ymatebion rhai sy'n sefyll gerllaw gweithredol

1. **Nodi'r** digwyddiad

2. **Nodi'r sefyllfa fel un broblemus** (yn yr achos hwn, adnabod y sefyllfa fel DVA)

3. **Teimlo'n gyfrifol** am weithredu

4. **Meddu ar y sgiliau cywir** i weithredu (Latane a Darley 1979, Berkowitz, 2009)

Mae'r camau hyn wrth wraidd y rhan fwyaf o raglenni hyfforddi rhai sy'n sefyll gerllaw (e.e. Gainsbury et al., 2020); os nad yw rhai sy'n sefyll gerllaw yn uniaethu ag un o'r camau ar unrhyw adeg, er enghraifft, os nad ydynt yn nodi'r sefyllfa fel DVA (cam 2), efallai na fyddant yn cymryd unrhyw gamau mewn ymateb i'r ymddygiad y maent wedi sylwi arno.

Mae damcaniaeth normau cymdeithasol hefyd yn chwarae rôl arwyddocaol mewn ymatebion rhai sy'n sefyll gerllaw. Wrth gael ei gymhwyso i DVA, mae hyn yn golygu y gall normau cymdeithasol neu gymunedol ddylanwadu ar y ffordd y mae cyflawnwyr a rhai sy'n sefyll gerllaw yn ymddwyn. "*Nid oes angen i'r rhan fwyaf [o'r grŵp] ei gredu, dim ond i'r mwyafrif gredu bod y mwyafrif yn ei gredu*" (Berkowitz, 2003, tt. 261) Yn syml, mae rhai sy'n sefyll gerllaw yn llai tebygol o weithredu, os ydynt yn pryderu am DVA, pan nad oes neb arall yn ymddangos yn bryderus am yr ymddygiad. Efallai y bydd pobl eraill hefyd yn pryderu, ond ni fyddant yn teimlo'n hyderus i ddweud unrhyw beth gan fod norm y grŵp yn awgrymu nad yw'n broblem; cyfeirir at hyn yn aml fel "anwybodaeth luoseddol". Felly, mae symud y normau cymdeithasol, a grymuso rhai sy'n sefyll gerllaw i deimlo'n ddigon hyderus i siarad, yn hanfodol i fynd i'r afael â DVA (Fenton *et al.*, 2016).

Pan na chaiff DVA ei adrodd, gall arwain at ddeilliannau difrifol i'r dioddefwr; y mwyaf difrifol ohonynt yw marwolaeth (Bouillon-Minois, 2020). Ac eto, mae ymchwilwyr wedi nodi bod rhai sy'n sefyll gerllaw yn fwy tebygol o adrodd am achosion o DVA pan fydd ganddynt brawf, oherwydd eu bod yn poeni na fyddant yn cael eu credu (Rowe, 2018). Felly, mae'n hanfodol bod rhai sy'n sefyll gerllaw yn cael digon o wybodaeth i deimlo'n hyderus y bydd eu pryderon, hyd yn oed heb brawf, yn cael eu cymryd o ddifri a bod y dulliau ar gyfer rhannu eu pryderon yn hawdd eu cyrraedd (Borum, 2013). Mae rhai sy'n sefyll gerllaw yn hanfodol i fynd i'r afael â DVA ar lefel gymunedol a chymdeithasol (Gainsbury et al 2020). Gall eu cefnogaeth hefyd fod yn hanfodol i ddioddefwyr sy'n byw gyda DVA.

## 1.6 Sail Resymegol a Nodau'r Astudiaeth

Yn aml, gall DVA fod yn drosedd sy'n digwydd y tu ôl i ddrysau caeedig ac allan o'r golwg. Mae'r cyfyngiadau a roddwyd ar waith i gyfyngu ar ledaeniad COVID-19 yn golygu bod DVA wedi'i waethygu i rai dioddefwyr a bod rhwystrau wedi bod i ddulliau o gael mynediad at rwydweithiau cymorth. Yn ei dro, mae'n bosibl bod pobl eraill sy'n agos at y dioddefwyr yn ffisegol (ac ar-lein) wedi mynd yn rhai sy'n sefyll gerllaw anfwriadol ac annisgwyl i DVA a/neu'r arwyddion sy'n rhybudd o'r fath gam-drin, gyda chyfleoedd newydd posib i weithredu.

Mae'r Strategaeth Genedlaethol ar gyfer VAWDASV (Llywodraeth Cymru, 2016) yn nodi mai un o'r prif ymrwymiadau i Lywodraeth Cymru yw atal sylfaenol. Mae hyn yn cwmpasu cynlluniau i gynyddu ymwybyddiaeth o VAWDASV o fewn poblogaeth Cymru, a herio'r agweddau sy'n ei gyfreithloni. Yr ymrwymiadau allweddol ychwanegol a amlinellir yn y strategaeth yw meithrin gallu sefydliadol, cyfundrefnol a chymunedol i nodi ac ymateb yn briodol i o VAWDASV ac ariannu gwasanaethau cymorth ymyriad cynnar yn ddigonol. Gall rhai sy'n sefyll gerllaw DVA fod yn ffynhonnell bwysig o gadernid a chefnogaethcymunedol i ddioddefwyr DVA, yn fwy efallai yn ystod y pandemig nag erioed.

**Nod yr astudiaeth hon yw deall profiadau ac ymddygiad rhai sy'n sefyll gerllaw yn ystod y pandemig COVID-19. Mae gan yr astudiaeth yr amcanion a ganlyn:**

**Darparu** mewnwelediad i'r grwpiau o bobl sydd wedi bod yn dyst i DVA

**Nodi'r** mathau o gam-drin y mae rhai sy'n sefyll gerllaw yn eu gweld

**Archwilio'r** camau a gymerwyd gan y rhai sy'n sefyll gerllaw mewn ymateb i bryderon y DVA, a'r cymhellion neu'r rhwystrau i gymryd y camau hynny

**Gellir defnyddio canfyddiadau'r astudiaeth hon i gyfeirio polisi atal DVA, datblygu rhaglenni hyfforddi rhai sy'n sefyll gerllaw a gwella gwybodaeth am ymatebion rhai sy'n sefyll gerllaw i DVA yn ystod y pandemig COVID-19. Mae deall y profiadau a'r ymddygiadau hyn yn hanfodol ar gyfer creu cydnerthedd cymdeithasol, yn ystod y pandemig COVID-19 ac yn y dyfodol; ac ar gyfer atal DVA fel strategaeth iechyd cyhoeddus hollbwysig.**

# 2.0 Adolygiad Llenyddiaeth



## 2.1 Strategaeth Chwilio Llenyddiaeth

**Defnyddiwyd adolygiad cwmpasu i archwilio'r llenyddiaeth berthnasol. Mae adolygiadau cwmpasu yn ddefnyddiol i**

- Nodi pa dystiolaeth sydd ar gael,
- Archwilio'r methodolegau a ddefnyddir,
- Nodi ffactorau allweddol sy'n gysylltiedig â phwnc yr ymchwil a
- Nodi unrhyw fylchau yn yr wybodaeth

(Munn et al., 2018).

Nod yr adolygiad oedd nodi llenyddiaeth sy'n cefnogi'r amcanion ymchwil (fel uchod). Defnyddiwyd yr erthyglau a nodwyd i gyfeirio datblygiad yr arolwg yn y lle cyntaf, ac yn ddiweddarach i feirniadu'r canfyddiadau.

Defnyddiwyd un ar ddeg o beiriannau chwilio ar gyfer y chwiliad: Wiley, Taylor a Francis, Springer, Siwrnalau Sage, ProQuest, Elsevier, Cochrane, CINAHL, APA, Research Gate a Google Scholar. Ynghyd â hyn, chwiliwyd â llaw drwy siwrnalau perthnasol; “Violence Against Women”, “Journal of Gender Based Violence”, “Psychology of Violence”, “Journal of Interpersonal Violence” a “BMC Public Health”. Y termau chwilio allweddol a ddefnyddiwyd oedd “bystander”, “bystander experiences”, “COVID”, “coronavirus”, “pandemic”, “domestic abuse and violence”, “domestic”, “abuse” a “violence”.

Roedd y terfynau chwilio yn Saesneg yn unig, wedi'i adolygu gan gymheiriaid gyda'r testun llawn ar gael. Archwiliwyd adolygiadau systematig cyhoeddedig hefyd a dilynwyd cyfeiriadau perthnasol i fyny. Cynhaliwyd yr adolygiad cwmpasu rhwng mis Tachwedd 2020 a mis Ebrill 2021.



## 2.2 Credoau Rhai sy'n Sefyll Gerllaw yn y Gymuned

Nodwyd sawl astudiaeth sy'n archwilio credoau, ymddygiad a chanfyddiadau rhai sy'n sefyll gerllaw ar amrywiaeth o wahanol ysgogiadau DVA.

Anfonodd *Banyard et al.* (2020) holiaduron post at drigolion yn New England, UDA i archwilio unrhyw gysylltiadau rhwng ymdeimlad o gymuned ac ymatebion rhag-gymdeithasol rhai sy'n sefyll gerllaw i drais domestig a rhywiol. Rhannwyd y 1623 o ymatebwyr i dri chategori: rhai nad ydynt yn ymateb, y rhai sy'n ymateb o bryd i'w gilydd, a'r rhai sy'n ymateb yn aml. Roedd gan bawb o fewn y grŵp ymateb yn aml fwy o ymdeimlad o gymuned o'i gymharu â'r ddau grŵp arall. Er na chafodd ei gynnal mewn lleoliad cymunedol, nododd McMahon et al. (2015) ganlyniadau cyfatebol o fewn sampl prifysgol.

Ceisiodd Muralidharan a Kim (2019) bennu'r ffordd fwyaf effeithlon o gymell rhai sy'n sefyll gerllaw i gymryd camau yn erbyn DVA. Bu iddynt ddefnyddio dau grŵp o gyfranogwyr. Dysgwyd ffeithiau am DVA i un grŵp a chyflwynwyd naratif profiad o lygad y ffynnon goroeswr i'r llall. Roedd y naratif profiad byw yn llawer mwy effeithiol o ran cymell rhai sy'n sefyll gerllaw i gymryd camau rhag-gymdeithasol, mewn theori, yn erbyn DVA. Priodolwyd y gwahaniaeth amlwg hwn rhwng y grwpiau i'r empathi yr oedd rhai sy'n sefyll gerllaw yn gallu ei deimlo ar ôl clywed profiad personol y dioddefwr[2]. Mae hyn yn awgrymu bod empathi'n chwarae rôl bwysig mewn ymddygiad rhai sy'n sefyll gerllaw rhag-gymdeithasol. Mae empathi yn rhagflaenu effeithiolrwydd, lle mae'r un yn rhagflaenu'r llall yn rhesymegol. Mae'r cysylltiad rhwng mwy o effeithiolrwydd ac ymyriad rhag-gymdeithasol gan y rhai sy'n sefyll gerllaw wedi'i hen sefydlu (Fenton a Mott, 2018).
Yn debyg i'r astudiaeth uchod, dangosodd Green (2020) fideos i bentrefwyr mewn rhannau gwledig o Uganda o ddioddefwyr DVA yn rhannu eu storïau i geisio lleihau trais yn erbyn menywod ac annog ymyriad gan y rhai sy'n sefyll gerllaw. Sawl mis ar ôl dangos y fideos, ailymwelodd y tîm ymchwil â'r pentrefi i asesu effaith y fideos. Nid oedd y fideos wedi effeithio ar gyfraddau trais yn erbyn menywod, ac eto roedd mwy o bobl yn adrodd am ddigwyddiadau yr oeddent wedi'u gweld neu eu profi'n bersonol. Mae hyn yn awgrymu bod empathi'n fwy effeithiol o ran ysgogi ymatebion rhag-gymdeithasol y rhai sy'n sefyll gerllaw ac annog dioddefwyr i ddod ymlaen nag y mae wrth atal camdrinwyr.

Ymchwiliodd Taylor *et al.* (2016) i brofiadau dioddefwyr trais gan bartner agos (IPV) mewn ardaloedd gwledig De'r Unol Daleithiau pan oedd rhywun yn bresennol i fod yn dyst i'r cam-drin corfforol. Nododd nifer amlwg o gyfranogwyr fod presenoldeb y rhai sy'n sefyll gerllaw wedi arwain at gyfraddau uwch o anaf ac iechyd meddwl gwaeth i'r dioddefwyr.  Er iddi ganolbwyntio'n gyfan gwbl ar IPV corfforol, tynnodd yr astudiaeth hon sylw at y ffaith nad yw'r holl gam-drin yn digwydd yn breifat, a phan oedd rhywun sy'n sefyll gerllaw (heb ei hyfforddi) wedi bod yn bresennol, bod hynny wedi arwain at ddeilliannau gwaeth i'r dioddefwr. Mae'n rhaid i ymyriadau gan y rhai sy'n sefyll gerllaw sicrhau bod eu diogelwch eu hunain (fel rhai sy'n sefyll gerllaw) a'r dioddefwr yn flaenoriaeth wrth geisio helpu mewn sefyllfa sy'n ymwneud â thrais corfforol. Mae'r astudiaeth hon wedi tynnu sylw at pam mae hyfforddiant priodol yn hanfodol, er mwyn sicrhau diogelwch pawb dan sylw.

Er nad ydynt yn cael ei gynnal o fewn y gymuned gyffredinol, mae sawl astudiaeth wedi taflu goleuni ar gymhellion a rhwystrau i fyfyrwyr gymryd camau pan fyddant yn dyst i gam-drin domestig neu rywiol. Er nad ydynt yn uniongyrchol berthnasol i'r astudiaeth hon, maent yn dal i gynnig cipolwg ar ymddygiadau rhai sy'n sefyll gerllaw. Er enghraifft, canfu Weitzman *et al.*, (2020) fod y berthynas rhwng y rhai sy'n sefyll gerllaw a'r dioddefwr yn rhagfynegydd sylweddol o ba un a gymerir camau ai peidio, gyda chyfranogwyr yn fwyaf tebygol o gymryd camau pe bai'r dioddefwr yn ffrind neu'n aelod o'r teulu. Canfu Flemming a Wiersma-Mosley (2015) fod difrifoldeb y cam-drin a welir yn ddylanwadol iawn i'r camau a gymerir gan y rhai sy'n sefyll gerllaw. Roedd y myfyrwyr yn llawer mwy tebygol o adrodd am ddigwyddiadau lle'r oeddent yn teimlo bod bygythiad uniongyrchol i fywyd. Canfu Christensen a Harris (2019) fod rhai sy'n sefyll gerllaw o fewn poblogaeth fyfyrwyr yn llawer mwy tebygol o gymryd camau rhag-gymdeithasol os oedd ganddynt brofiad personol o fod yn ddioddefwr eu hunain.

[2] Gall gwrando ar stori dioddefwr weithiau gael effaith andwyol ar agweddau gwrywaidd tuag at drais yn erbyn menywod; er enghraifft, nododd Berg et al. (1999) fod israddedigion gwrywaidd wedi adrodd mwy o debygolrwydd o gymryd rhan mewn ymddygiadau sy'n cefnogi trais rhywiol ar ôl clywed naratif menyw a oedd wedi dioddef trais rhywiol.

## 2.3 Rhaglenni Ymyriad Rhai sy'n Sefyll Gerllaw

Mae corff sylweddol, byd-eang o lenyddiaeth ar raglenni rhai sy'n sefyll gerllaw i atal trais a cham-drin domestig a rhywiol. Mewn adolygiad systematig diweddar, a gynhaliwyd gan Addis a Snowdon (2021), roedd rhaglenni rhai sy'n sefyll gerllaw yn ganolbwynt i saith adolygiad systematig (Kovalenko et al., 2020; Kettrey and Marx, 2019a; Kettrey and Marx, 2019b; Mujal et al., 2019; Jouriles et al., 2018; Storer et al., 2016; Fenton et al., 2016). Canfu pob adolygiad fod y rhan fwyaf o lenyddiaeth rhai sy'n sefyll gerllaw yn canolbwyntio ar bobl mewn glasoed neu bobl ifanc mewn lleoliadau addysgol, lleoliadau coleg a phrifysgol yn bennaf gyda ffocws ar atal trais rhywiol a chan bartner agos. Yn gyffredinol, daeth yr adolygiad i'r casgliad bod gan raglenni rhai sy'n sefyll gerllaw duedd gref i newid agweddau a chredoau sy'n hyrwyddo VAWDASV.

At hynny, gwerthusodd saith astudiaeth sylfaenol ymyriadau rhai sy'n sefyll gerllaw gan gynnwys *Red Flag Campaign*(Borsky et al., 2018, Carlyle et al., 2020), Green Dot(Coker et al., 2019), *Bringing in the Bystander*(Edwards et al., 2019) a *The Intervention initiative* (Fenton and Mott, 2018). Er y cynhaliwyd astudiaethau'n bennaf mewn lleoliadau prifysgol, mae un astudiaeth yn dangos y gellir trosglwyddo'r dull person sy'n sefyll gerllaw (Active Bystander Communities) o boblogaeth myfyrwyr i gymunedau cyffredinol yn y DU (Gainsbury et al., 2020).

Gwerthusodd Gainsbury et al(2020) ddichonoldeb a photensial ar gyfer effeithiolrwydd ymyriad rhai sy'n sefyll gerllaw o ran DVA mewn cymunedau yn y DU. Mae Active Bystander Communities (ABC) yn ei gwneud yn ofynnol i gyfranogwyr fynychu rhaglen hyfforddi a hwylusir gan arbenigwyr dros dair sesiwn. Aseswyd effeithiolrwydd rhai sy'n sefyll gerllaw, bwriad ymddygiadol, ymddygiadau rhai sy'n sefyll gerllaw a derbyn mythau ar adeg waelodlin gan ddefnyddio graddfeydd wedi'u dilysu, ar ôl yr hyfforddiant ac ar ôl pedwar mis. Gwelwyd newidiadau sylweddol ar draws effeithiolrwydd rhai sy'n sefyll gerllaw, bwriad ymddygiadol a derbyn mythau. Ar bedwar mis ar ôl yr ymyriad, roedd y newidiadau hyn wedi'u cynnal, ac mewn rhai achosion roeddent wedi cynyddu, ac eithrio derbyn mythau. Mae'r canfyddiadau hyn yn addawol ac yn dangos y gall ABC helpu i newid agweddau tuag at DVA mewn cymunedau cyffredinol yn y DU.

Nododd astudiaethau ychwanegol raglenni gydag elfennau o raglennu rhai sy'n sefyll gerllaw wedi'u cynnwys mewn dyluniad rhaglenni. Er enghraifft, cynhaliodd Quigg a Bigland (2020) werthusiad o'r Good Night Out Campaign (GNOC). Mae GNOC yn rhaglen yn y DU a ddatblygwyd ar gyfer safleoedd trwyddedig gyda'r nod o gefnogi'r rhai sy'n gweithio mewn lleoliadau bywyd nos i ddeall, ymateb i, ac atal trais rhywiol yn well. Gweithiodd hwyluswyr GNOC gydag 11 lleoliad bywyd nos, gan ddarparu canllawiau ar atal ac ymateb i drais rhywiol a hyfforddiant rhai sy'n sefyll gerllaw i dros 150 o weithwyr bywyd nos. Darparwyd deunyddiau i'r lleoliadau a gymerodd ran i'w harddangos er mwyn codi ymwybyddiaeth o GNOC ac annog noddwyr i roi gwybod am ddigwyddiadau. Arolygwyd yr hyfforddeion ac awgryma'r canfyddiadau fod y rhaglen hyfforddi GNOC yn gysylltiedig â gwelliannau mewn gwybodaeth ac agweddau tuag at drais rhywiol. Nododd Quigg a Bigland (2020) well barodrwydd a hyder i ymyrryd mewn trais rhywiol, ymhlith gweithwyr bywyd nos.

## 2.4 Rhai sy'n sefyll gerllaw yn ystod COVID-19

Nodwyd dim ond un astudiaeth a gyfeiriodd at ymddygiad rhai sy'n sefyll gerllaw yn ystod y pandemig. Nododd Campbell (2020) mai dim ond 8% o alwadau i asiantaethau gorfodi'r gyfraith i adrodd am DVA yn ystod y pandemig a ddaeth gan rai sy'n sefyll gerllaw, o'i gymharu ag 80% o alwadau rheoli anifeiliaid a wnaed gan rai sy'n sefyll gerllaw. Mae'r papur hwn yn tynnu sylw ymhellach at sut mae DVA hefyd yn bresennol mewn nifer fawr o'r cartrefi lle mae creulondeb anifeiliaid yn cael ei adrodd; cyswllt sydd bellach wedi'i hen sefydlu (Riggs et *al.*, 2021). Dylai'r uned rheoli anifeiliaid hefyd gael ei hyfforddi mewn DVA a chael ei hysbysu am y llwybrau i adrodd am bryderon y maent yn sylwi arnynt wrth ymchwilio i achosion o gam-drin anifeiliaid.

Mae bwlch amlwg yn y sylfaen dystiolaeth ar gyfer ymddygiad rhai sy'n sefyll gerllaw yn ystod y pandemig COVID-19. Dyma fwlch y mae'r astudiaeth hon wedi ceisio mynd i'r afael â hi.

# 3.0 Methodoleg

## 3.1 Y Cwestiwn a Nodau Ymchwil

Mae'r ymchwil hon yn ceisio ymchwilio i ymddygiad a phrofiadau rhai sy'n sefyll gerllaw o ran DVA yn ystod y pandemig COVID-19 yng Nghymru. Wrth wneud hynny, bydd yr astudiaeth hon yn mynd i'r afael â maes nad yw wedi cael ei astudio'n ddigonol yn y llenyddiaeth rhai sy'n sefyll gerllaw ac atal trais. Gofynnwyd y cwestiynau ymchwil a ganlyn:

- Beth yw profiadau rhai sy'n sefyll gerllaw o DVA yn ystod y pandemig COVID-19?
- Beth yw'r cymhellion a'r rhwystrau i rai sy'n sefyll gerllaw DVA yn ystod y pandemig COVID-19?
- Beth oedd yr effaith ar y rhai sy'n sefyll gerllaw a pha gymorth sydd ei angen arnynt?

### Nodau'r astudiaeth hon oedd:

- Gwella gwybodaeth am gyfleoedd ac ymddygiadau rhai sy'n sefyll gerllaw yn ystod y pandemig COVID-19.
- Cyfeirio polisi a strategaethau atal.
- Ychwanegu at y sylfaen dystiolaeth ar gyfer rhaglenni rhai sy'n sefyll gerllaw a sut y gellir defnyddio'r prif ffactorau atal DVA yn ystod pandemigau yn y dyfodol.



## 3.2 Trosolwg o Ddulliau

**Defnyddiodd yr astudiaeth dulliau cymysg hon arolwg meintiol ar-lein a gyflwynwyd drwy'r platfform ar-lein Qualtrics, ynghyd â chyfweliadau ansoddol, a gynhaliwyd dros Zoom neu Microsoft Teams. Rhedodd recriwtio am yr arolygon a chyfweliadau am gyfnod o dair wythnos, o 15 Chwefror 2021 i 8 Mawrth 2021.**

## 3.3 Datblygu Deunyddiau

### Arolwg

Hyd eithaf gwybodaeth y tîm ymchwil, nid oes arolwg na holiadur yn bodoli ar hyn o bryd sy'n archwilio profiadau rhai sy'n sefyll gerllaw DVA yn ystod y pandemig COVID-19. Felly, datblygodd y tîm eu harolwg eu hunain gyda chymorth y grŵp cynghori (a gydnabyddir uchod, tt 5).
Er mwyn datblygu'r arolwg, cynhaliwyd chwiliad helaeth o'r llenyddiaeth a chynhaliwyd arolygon o hinsawdd campysau, ochr yn ochr ag adolygiad o'r tueddiadau data cyfredol a chyfraith droseddol. Cynhaliwyd gweithdai cyfranogol gyda'r tîm ymchwil ac aelodau'r grŵp ymgynghori i lunio a mireinio'r arolwg terfynol. Bydd papur academaidd sy'n amlinellu'r broses o ddatblygu'r offeryn arolwg arloesol hwn yn cael ei gyhoeddi cyn bo hir.

Ceir manylion am ledaenu'r arolwg isod (Adran 3.6, tt 21).

**Mae fersiwn derfynol yr arolwg yn cynnwys yr adrannau canlynol:**

- **Gwybodaeth** ddemograffaidd
- **Gwybodaeth** am DVA ac agwedd ato
- **DVA a welwyd** yn ystod y pandemig
- **Jôcs neu bryfocio rhywiaethol a gwreig-gasaol** a welwyd yn ystod y pandemig
- **Trais rhywiol a cham-drin domestig,** jôcs neu bryfocio a welwyd yn ystod y pandemig
- Anghenion **hyfforddi**

**Mae canfyddiadau'r arolwg ar-lein i'w gweld isod (Adran 4.0, tt 22).**

**Ar ddiwedd yr arolwg, gofynnwyd i ymatebwyr a hoffent gymryd rhan mewn cyfweliad i ymchwilio i'w profiadau ymhellach. Os felly, fe'u gwahoddwyd i e-bostio'r tîm ymchwil a gofyn am daflen wybodaeth a fu'n cynnwys rhagor o wybodaeth am y cyfweliadau. Os oeddent am gymryd rhan yn y cyfweliad ar ôl darllen drwy'r daflen wybodaeth, trefnwyd hyn hefyd drwy e-bost gyda'r tîm ymchwil.**

### Cyfweliadau

Cynhaliwyd cyfweliadau lled-strwythuredig gyda chyfranogwyr dros Microsoft Teams neu Zoom. Dilynodd y cyfweliadau hyn strwythur tebyg i'r arolwg ar-lein ond gan ofyn hefyd i gyfranogwyr ymhelaethu ar effaith bod yn rhywun sy'n sefyll gerllaw DVA arnynt hwy yn bersonol, a'r rhai dan sylw. Roedd y cyfweliadau'n caniatáu i'r cyfranogwyr rannu manylion cyfannol yr hyn yr oeddent wedi'i weld neu bryderu amdano ers dechrau'r pandemig. Roeddent yn gallu rhoi darlun llawnach o'r digwyddiadau nad oedd yr arolwg yn gallu eu cofnodi. Mae copi o gwestiynau'r cyfweliad ar gael ar gais.

Ar gyfartaledd, roedd pob cyfweliad yn para hanner awr. Mae canfyddiadau'r cyfweliadau hyn wedi'u cynnwys yn y data arolwg, er mwyn dangos canfyddiadau allweddol ymhellach.

## 3.4 Meini Prawf Cynnwys

Nod yr astudiaeth hon oedd recriwtio unrhyw un 18 oed a hŷn a allai fod wedi gweld neu ddod yn ymwybodol o DVA ers dechrau'r cyfnod clo (Mawrth 2020). Cynhaliwyd yr astudiaeth hon yng Nghymru yn unig gyda chyfranogwyr yn byw neu'n gweithio yn y wlad.

## 3.5 Moeseg

Ar ôl ymgynghori ag Arweinydd Diogelu Iechyd Cyhoeddus Cymru, derbyniodd yr astudiaeth hon gymeradwyaeth moeseg y GIG gan HRA a HCRW ar 20 Ionawr 2021 (cyf. 20/HCRW/0061). Cymeradwyodd Ymchwil a Datblygu a Diogelu Data Iechyd Cyhoeddus Cymru yr astudiaeth ar 4 Chwefror 2021.

## 3.6 Lledaenu

Datblygwyd cynllun cyfathrebu i hysbysebu ac optimeiddio ymgyrhaeddiad yr arolwg ar draws rhwydweithiau cyhoeddus a phroffesiynol, gan ddefnyddio cyfathrebu am dâl ac organig drwy'r cyfryngau cymdeithasol ac e-bost. Cymerodd sefydliadau a rhanddeiliaid allweddol yn ran i helpu wrth ledaenu'r arolwg drwy sianeli cyhoeddus a rhwydweithiau proffesiynol.

Wrth ddylunio'r hysbysebion ar gyfer recriwtio i'r astudiaeth hon, ni ddefnyddiwyd yr ymadrodd "rhai sy'n sefyll gerllaw", gan nad oedd y tîm yn siŵr y byddai aelodau o'r cyhoedd yn gwybod beth mae'r ymadrodd hwn yn ei olygu. Yn hytrach, geiriad yr hysbysebion (o'r daflen wybodaeth i gyfranogwyr) oedd "astudiaeth i'r hyn y gallech fod wedi'i weld, sylwi neu wedi bod yn pryderu am mewn perthynas â cham-drin domestig neu arwyddion rhybudd amdano ers dechrau pandemig COVID-19".

Dyluniwyd y cyfathrebiadau (y talwyd amdanynt) ar gyfer y cyfryngau cymdeithasol ac roeddent yn cynnwys dylunio hysbyseb ar ffurf GIF (a gyfieithwyd i'r Gymraeg a'r Saesneg) a ddefnyddiwyd i hysbysebu'r arolwg. Roedd hysbysebion wedi'u targedu at oedolion sy'n byw yng Nghymru, rhai mathau penodol o alwedigaethau a oedd yn gweithio'n weithredol yn y gymuned yn ystod y pandemig; megis gweithwyr cludo nwyddau/post, gweithwyr cludiant cyhoeddus, yr heddlu, staff ysbytai, trin gwallt, a'r rhai a oedd wedi ymweld â gwefannau DVA. Ar ôl pythefnos, adolygwyd y data a thargedwyd unrhyw fylchau a nodwyd mewn demograffeg am wythnos arall.




Roedd cyfathrebu hefyd yn cynnwys hysbyseb wybodaeth yn safle newyddion ar-lein mwyaf Cymru, Wales Online[3]. Yn ogystal â'r hysbyseb wybodaeth, roedd hyn yn cynnwys dwy bostiad ar Facebook a dwy bostiad Twitter o brif ffrwd newyddion Wales Online. Roedd y cyfathrebu organig yn cynnwys ymgysylltu â'r cyfryngau a rhanddeiliaid. Cafodd darllediadau o'r arolwg hefyd eu cynnwys ar wefan BBC Wales Online[4], BBC News, sioe radio foreol BBC Radio Wales, ac ar draws y tri chylch newyddion rhanbarthol ar y BBC.

## 3.7 Dadansoddi'r data

Cafodd data'r arolwg meintiol ei lanhau i ddechrau, gydag unrhyw ymatebion rhannol yn cael eu dileu, a chymhwyswyd codau. Yna fe'i dadansoddwyd gan ddefnyddio IBM SPSS Statistics Fersiwn 24 a rhedwyd dadansoddiad ystadegol disgrifiadol a chi-sgwâr. Ceir copi o'r allbynnau dadansoddi yn Atodiad I.

Roedd sain y cyfweliadau wedi'u recordio, eu trawsgrifio a'u gwneud yn ddienw. Yna fe'u dadansoddwyd gan ddefnyddio Atlas ti. 8 a chwblhawyd dadansoddiad thematig.

**Bydd papur academaidd ar ganlyniadau'r astudiaeth yn cael ei gyhoeddi maes o law.**

[3] Cymerwch yr arolwg hwn a helpwch i fynd i'r afael â'r achosion cynyddol o gam-drin domestig yng Nghymru - Wales Online

[4] https://www.bbc.co.uk/news/uk-wales-56074048

# 4.0 Canlyniadau

**Mae'r adran hon yn cyfuno canfyddiadau'r arolwg meintiol a'r cyfweliadau ansoddol. Lle y bo'n bosib, defnyddir y data ansoddol i gefnogi'r dadansoddiad data meintiol a chynnig mewnwelediad ychwanegol.**

## 4.1 Ymatebwyr i'r Arolwg

Derbyniwyd cyfanswm o **395 o ymatebion i'r arolwg** dros gyfnod o dair wythnos. O'r rhain, cwblhawyd **186 o gofnodion yn llawn** ac fe'u defnyddiwyd ar gyfer yr adroddiad hwn.

**Roedd 95.2% o'r ymatebwyr yn Wyn Prydeinig/Gwyddelig** sy'n gweddu i ddemograffeg Cymru (Llywodraeth Cymru, 2020). Roedd y rhan fwyaf **(85%) o'r ymatebwyr yn fenywod (N=158 allan o 186) a rhwng 18 a 44 oed (66.3%).**

Ceir dadansoddiad llawn o fanylion demograffaidd y cyfranogwyr yn Atodiad A.

Nododd y rhan fwyaf o'r cyfranogwyr (64%) iddynt deimlo bod eu gwybodaeth am DVA yn wybodus iawn a gwybodus tu hwnt. Ni theimlodd cyfranogwyr yr un mor wybodus am y cyfreithiau sy'n ymwneud â DVA, gyda'r rhan fwyaf yn dewis yr opsiwn cymedrol wybodus ar gyfer y cwestiwn hwn ar yr arolwg (52.7%). Roedd rhaniad bron yn gyfartal rhwng y rhai a oedd wedi mynychu hyfforddiant DVA o fewn y 5 mlynedd diwethaf, a'r rhai nad oeddent wedi gwneud hynny. Roedd rhaniad tebyg rhwng cyfranogwyr yr oedd eu rolau swydd yn gofyn iddynt gael ymwybyddiaeth o DVA a'r rhai nad oeddent.

Casglodd yr arolwg ddata gan bobl mewn amrywiaeth o alwedigaethau, gan gynnwys gofal iechyd, gofal cymdeithasol, diwydiant, gwasanaethau cyhoeddus allweddol, llywodraeth, addysg, ac roedd hefyd yn cynnwys y rhai sydd wedi ymddeol, sy'n ddi-waith ac rhieni sy'n aros gartref. Nododd y data hefyd fod tri chwarter (75.4%) o'r ymatebwyr wedi aros gartref yn bennaf yn ystod y dydd ers dechrau'r cyfyngiadau pandemig; boed hynny'n gweithio o gartref, wedi ymddeol, yn ddi-waith, ar ffyrlo neu'n rhiant aros gartref.

Nododd nifer sylweddol o gyfranogwyr eu bod yn unigolion rhag-gymdeithasol, ac roeddent am helpu aelodau eraill o'u cymuned (80%). Yn yr un modd, roeddent yn teimlo y gallent gymryd camau yn erbyn DVA, ac nid oeddent yn cytuno â datganiadau myth trais rhywiol.

## 4.2 Ymatebwyr Cyfweliad

Dim ond chwe ymatebydd arolwg a e-bostiodd y tîm i ofyn am ragor o wybodaeth am y cyfweliadau a chytunodd bob un o'r chwech i gymryd rhan. O'r chwech hyn, roedd tri o'r cyfweliadau wedi'u hepgor o'r astudiaeth gan nad oeddent yn bodloni'r meini prawf cynnwys- roedd dau yn oroeswyr ac roedd un yn cynnwys profiadau o weithio yn rhinwedd swydd broffesiynol yn unig.

Y tri chyfranogwr arall oedd menywod a oedd â gwybodaeth dda am DVA drwy eu rolau proffesiynol eu hunain, ac roeddent yn gallu trafod pryderon am DVA yr oedd ganddynt y tu allan i'w rolau. Roedd gan ddau bryderon am ffrind, ac roedd y llall yn pryderu am eu rhieni oedrannus gyda dementia a oedd yn cael eu cam-drin gan roddwr gofal.

## 4.3 Profiadau Rhai sy'n Sefyll Gerllaw

Ymddygiadau rheolaeth drwy orfodaeth ac arwyddion rhybudd am DVA oedd yr ymddygiadau mwyaf cyffredin a welwyd gan ymatebwyr (Ffigur 1). Roedd ymddygiadau rheolaeth drwy orfodaeth yn cynnwys rhywun yn cael ei fonitro a/neu ei reoli ynghylch ble maen nhw neu, gyda phwy maen nhw; rhywun sy'n cael ei fonitro gan ddefnyddio meddalwedd ysbïo neu ddyfeisiau tracio; rhywun y mae ei ffôn, cyfryngau cymdeithasol neu ddefnydd o'r rhyngrwyd yn cael eu rheoli neu eu gwirio. Roedd arwyddion rhybudd o DVA yn cynnwys rhywun yn edrych yn ofnus a/neu'n cerdded ar bigau drain o amgylch eu partner a/neu aelodau o'u teulu; neu rywun sy'n ymddwyn fel pe baent yn bryderus iawn ac yn ofnus drwy'r amser.

Roedd y thema hon hefyd yn amlwg o fewn data'r cyfweliad, gan nad oedd cyfranogwyr y cyfweliad wedi gweld eu ffrindiau na'u teulu'n cael eu cam-drin yn uniongyrchol, ond wedi dod yn ymwybodol o arwyddion rhybudd a ddangosodd fod rhywbeth o'i le.

At hynny, teimlai cyfranogwyr y cyfweliadau fod amgylchiadau'r pandemig yn cael eu defnyddio gan gyflawnwyr i reoli'r dioddefwyr.

### Ymddygiadau DVA a welwyd gan rhai sy’n sefyll gerllaw yn ystod y pandemig




**Ffigur 1: Ymddygiadau a welwyd yn ystod y pandemig**

> **“Roedd newid pendant yng ngallu fy ffrind i siarad yn rhydd... Roedd hi'n dechrau sôn am bethau a'u cynnwys mewn sgyrsiau, felly roedden ni'n teimlo efallai ei bod hi eisiau siarad amdano ... ond cyn gynted ag y byddech yn ceisio cynnig cymorth o amgylch hynny, gwnaeth gau i lawr yn gyflym, yn amddiffynnol iawn”** [Cyfweliad 3]

**"Roedd hi'n eithaf ofnus o'r pandemig, roedd e'n defnyddio'r ofn hwnnw i'w chadw yn y tŷ yn fwy, i'w rheoli hi'n fwy ... ni fyddai hi hyd yn oed yn mynd allan i'r ardd yn y diwedd oherwydd iddo ddweud wrthi nad oedd yn ddiogel gwneud hynny. Felly, fe aeth braidd yn eithafol"** [Cyfweliad 2]

Ymhlith ymatebion yr arolwg, nodwyd gwahaniaethau sylweddol rhwng y rhywiau o fewn yr ymddygiadau a welwyd a/neu a achosodd bryder. Fel y dengys Tabl 1 (tt 25), ar y cyfan, gwelwyd y rhan fwyaf o ymddygiadau DVA gan fenywod, ac eithrio cam-driniaeth rhywun LHDTCI+, a welwyd gan 14. 3% o gyfranogwyr sy'n ddynion, o'i gymharu â 12.3% o gyfranogwyr sy'n fenywod, a bygythiadau o gam-drin, a welwyd gan 57.1% o gyfranogwyr sy'n ddynion, o'i gymharu â 41.1% o gyfranogwyr sy'n fenywod.

Ar gyfer y rhan fwyaf o ymddygiadau, fe'u gwelwyd yn fwy gan y rhai rhwng 18 a 34 oed (fel y dangosir yn Nhabl 1), ac eithrio[5] cam-drin LHDTCI+, cam-drin person agored i niwed a bygythiadau o gamdriniaeth, a nodwyd yn bennaf gan y rhai dros 45 oed (52%, 42. 5% a 39.4% yn y drefn honno).

Wrth archwilio cysylltiad rhwng galwedigaeth ac ymddygiadau, gwelwyd cyfran uwch o'r rhai sy'n gweithio ym maes iechyd a gofal cymdeithasol neu ddiwydiant a swyddi trydyddol eraill a[6] ddywedodd eu bod wedi dechrau pryderu ar draws pob ymddygiad (gweler Tabl 1). Adroddodd 100% o'r cyfranogwyr a oedd yn gweithio mewn addysg (N=31) bryderon am reolaeth drwy orfodaeth ers i'r pandemig ddechrau.

Er bod tri chwarter yr ymatebwyr i'r arolwg gartref yn bennaf, mae'r data'n awgrymu nad oedd unrhyw wahaniaeth nodedig rhwng y rhai a oedd gartref yn bennaf yn ystod y pandemig (gweithio gartref, ffyrlo, di-waith) a'r rhai a oedd yn parhau i fynd i'r gwaith fel arfer wrth weld neu'n pryderu am ymddygiadau DVA (gweler atodiadau, Tabl 7). Ac eto, nododd nifer sylweddol uwch o gyfranogwyr (44.8%) iddynt deimlo bod y pandemig wedi caniatáu iddynt fod yn ymwybodol o'r ymddygiadau pryderus (er enghraifft, gweithio gartref pan fyddent fel arfer yn y swyddfa).

Dangoswyd hyn hefyd yn y cyfweliadau, gan i gyfranogwyr deimlo bod y newid mewn arferion dyddiol wedi caniatáu iddynt sylwi ar yr arwyddion rhybudd.

**"Rwy'n credu y byddai wedi bod yn haws ei guddio neu efallai y byddem wedi tynnu ein sylw oddi arno ac efallai na fyddem wedi bod mor ragweithiol na mor ymwybodol a pryderus amdano pe na baem mewn pandemig"** [Cyfweliad 3]

[5] Cam-drin wedi'i anelu at bobl lesbiaidd, hoyw, deurywiol, trawsryweddol, cwiar a rhyngrywiol, ac eraill.
[6] Mae swyddi yn y diwydiant yn cynnwys gweithgynhyrchu neu adeiladu. Roedd swyddi trydyddol yn cynnwys trin gwallt, barb-wyr, therapyddion harddwch, ffotograffwyr, cerddorion, artistiaid, trafnidiaeth, manwerthu, lletygarwch a gweithwyr gwirfoddol.

**Tabl 1: Amlder a chanran y cyfranogwyr a welodd y gwahanol ymddygiadau DVA**

| | | Ymddygiadau a Welwyd | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Arwyddion Rhybudd | Rheolaeth drwy Orfodaeth | LHDTCI+ | Agored i niwed | Bygythion | Corfforol | Rhywiol |
| Rhywedd | Dyn | 15 (53.6%) | 24 (85.7%) | 4 (14.3%) | 5 (17.9%) | 16 (57.1%) | 10 (35.7%) | 2 (7.1%) |
| | Menyw | 117 (74.1%) | 144 (91.1%) | 21 (13.3%) | 35 (22.2%) | 65 (41.1%) | 73 (46.2%) | 33 (20.9%) |
| Oedran | 18-34 | 52 (39.4%) | 66 (39.3%) | 7 (28%) | 11 (27.5%) | 24 (29.6%) | 29 (34.9%) | 13 (37.2%) |
| | 35-44 | 39 (29.5%) | 49 (29.2%) | 5 (20%) | 12 (30%) | 25 (30.9%) | 25 (30.2%) | 11 (31.4%) |
| | 45+ | 41 (31.1%) | 53 (31.5%) | 13 (52%) | 17 (42.5%) | 32 (39.5%) | 29 (34.9%) | 11 (31.4%) |
| Swydd | Fel arfer gartref | 19 (63.3%) | 27 (90%) | 3 (10%) | 4 (13.3%) | 15 (50%) | 13 (43.3%) | 4 (13.3%) |
| | Iechyd a gofal cymdeithasol | 19 (63.3%) | 27 (90%) | 3 (10%) | 4 (13.3%) | 15 (50%) | 13 (43.3%) | 4 (13.3%) |
| | Llywodraeth neu wasanaethau cyhoeddus | 26 (66.7%) | 27 (90%) | 3 (7.7%) | 5 (12.8%) | 17 (43.6%) | 19 (48.7%) | 7 (17.9%) |
| | Addysg | 25 (80.6%) | 31 (100%) | 1 (3.2%) | 7 (22.6%) | 11 (35.5%) | 15 (48.4%) | 5 (16.1%) |
| | Diwydiant neu drydyddol | 32 (71.1%) | 37 (82.2%) | 7 (15.6%) | 16 (35.6%) | 19 (42.2%) | 16 (35.6%) | 9 (20%) |

## 4.4 Gweithredoedd, Cymhellion a Rhwystrau Rhai sy'n sefyll gerllaw

### Gweithredoedd

Gofynnwyd i rai sy'n sefyll gerllaw a oeddent wedi cymryd camau mewn ymateb i'r ymddygiad yr oeddent wedi'i weld. Dengys y canlyniadau fod 85.7% (24 o 28) o ddynion ac 88.6% (140 o 158) o fenywod wedi cymryd rhyw fath o gamau. Rhedwyd prawf chi-sgwâr ar y ddau newidyn hyn (rhywedd a chymryd camau) ac ni nodwyd unrhyw berthynas sylweddol ($X^2$, p=.662).

Cymerodd y rhan fwyaf o'r cyfranogwyr ym mhob grŵp oedran gamau yn erbyn y DVA yr oeddent wedi'i weld (gweler Tabl 2). Roedd y dadansoddiad chi-sgwariog yn dangos perthynas arwyddocaol rhwng oedran y cyfranogwr ac a oeddent yn gweithredu ai peidio, $X^2$(2, N=186) = 6.296, p=.043.

**Tabl 2: Amlder cyfranogwyr o bob grŵp oedran a gymerodd gamau**

| | | Wedi cymryd camau (ie) |
|---|---|---|
| Oedran | 18-34 | 56 (81.2%) |
| | 35-44 | 48 (88.9%) |
| | 45+ | 60 (95.2%) |

Wrth gymharu rhai sy'n sefyll gerllaw sy'n cymryd camau (ie neu na) i ddata nodwedd yr ymatebwyr, dangosodd y prawf chi-sgwâr fod lefelau newidiol o ymwybyddiaeth DVA (wedi cynyddu neu aros yr un fath) yn ystod y pandemig yn gysylltiedig yn arwyddocaol â gweithredu yn erbyn DVA, $X^2$(1, N=186) =4. 330, p=.037. Dangosodd y dadansoddiad ymhellach berthynas arwyddocaol rhwng y cyfranogwr ar ôl mynychu cwrs hyfforddi DVA a chymryd camau yn erbyn DVA, $X^2$(1, N=186) = 6.311, p=.012. O'r cyfranogwyr a oedd wedi cwblhau cwrs hyfforddi DVA, cymerodd 94.4% gamau hefyd mewn ymateb i weld DVA, o'i gymharu ag 82.5% o'r cyfranogwyr nad oeddent wedi derbyn hyfforddiant, ond a gymerodd gamau o hyd.

**Nododd y rhan fwyaf o'r cyfranogwyr a gymerodd gamau yn erbyn yr ymddygiadau DVA yr oeddent wedi'u gweld eu bod am helpu aelodau o'u cymuned (89.3%) ac roeddent yn teimlo'n fwy cysylltiedig â'u cymuned ers i'r pandemig ddechrau (89.3%). Mae hyn yn awgrymu bod y rhai a gymerodd gamau yn bobl rhag-gymdeithasol.**

Dywedodd pawb a welodd gam-drin person agored i niwed, bygythiadau o gam-drin neu gam-drin rhywiol eu bod wedi cymryd rhyw fath o gamau mewn ymateb. Gwnaeth 86% o'r rhai a welodd reolaeth drwy orfodaeth a 74% o'r rhai a welodd arwyddion rhybudd o DVA gymryd camau. Cymerodd y rhan fwyaf o'r cyfranogwyr gamau ar ôl gweld yr ymddygiad fwy na phum gwaith (53.7%). Ni ddangoswyd bod yr un o'r cydberthnasau hyn yn ystadegol arwyddocaol (gweler atodiadau, Tabl 9).

Ar y cyfan, dangosodd ymatebwyr iddynt ddod yn ymwybodol o'r ymddygiad naill ai drwy ei weld yn bersonol (N=75) neu am fod y dioddefwr wedi dweud wrthynt yn uniongyrchol (N=67). Daeth chwech o gyfranogwyr yn ymwybodol o'r ymddygiad ar-lein, tra bod rhywun arall wedi dweud wrth 23 ohonynt. Nid oedd y 15 arall am ateb (gweler Ffigur 2). Roedd y modd y gwelwyd yr ymddygiad yn ymwneud yn sylweddol ag a oedd y rhai sy'n sefyll gerllaw yn gweithredu, $X^2$(4, N=186) = 15.400, p=.004. Mae hyn yn golygu bod cyfranogwyr yn llawer mwy tebygol o gymryd camau pe baent yn gweld yr ymddygiadau problemus yn bersonol neu os dywedwyd wrthynt amdano'n uniongyrchol gan y dioddefwr, na phan oeddent yn dyst i'r cam-drin ar-lein neu pan ddywedwyd wrthynt gan rywun arall.

## Modd i'r rhai sy’n sefyll gerllaw ddod yn ymwybodol o ymddygiad y DVA yn y lle cyntaf




**Ffigur 2: Modd i'r rhai sy’n sefyll gerllaw ddod yn ymwybodol o ymddygiad y DVA yn y lle cyntaf**

**Nododd y rhan fwyaf o'r cyfranogwyr eu bod wedi gweld ymddygiadau DVA mewn perthnasoedd partneriaid agos (74.7%).** Nid oedd unrhyw gysylltiad arwyddocaol rhwng y math o berthynas (partner agos neu aelodau o'r teulu) a gweithredu gan y rhai sy'n sefyll gerllaw (gweler atodiadau, Tabl 9).

**Nododd y cyfranogwyr fod y rhan fwyaf o'r cyflawnwyr yn ddynion (131 allan o 186),** Sa'r rhan fwyaf o ddioddefwyr yn fenywod (137 allan o 186). Canfuwyd cysylltiadau arwyddocaol rhwng rhywedd y cyflawnwr a chymryd camau, $X^2(2, N=186) = 17.963$, $p <.001$, a rhywedd y dioddefwr a chymryd camau gan y r hai sy'n sefyll gerllaw, $X^2(2, N=186) =11.434$, $p=.003$.

Ac eto, fel y dengys Tabl 3, **dim ond gwahaniaeth bach sydd yng nghanrannau'r bobl a gymerodd gamau wrth gymryd rhywedd y cyflawnwr a'r dioddefwr i ystyriaeth.**

**Tabl 3: Canran y bobl a gymerodd gamau wrth gymryd rhywedd y cyflawnwr a'r dioddefwr i ystyriaeth**

| | | Wedi cymryd camau (ie) |
|---|---|---|
| Rhywedd y cyflawnwr | Dyn | 131 (90.3%) |
| | Menyw | 31 (88.6%) |
| Rhywedd y dioddefwr | Dyn | 25 (89.3%) |
| | Menyw | 137 (89.5%) |

Ar y cyfan, nid oedd unrhyw berthynas arwyddocaol rhwng y math o ymddygiad a welwyd a'r math o gamau a gymerwyd gan y rhai sy'n sefyll gerllaw, gyda dau eithriad. Yr eithriadau hyn i'r math o gamau a gymerwyd oedd adrodd yn swyddogol ar y digwyddiad i'r heddlu, elusen DVA neu wasanaethau cymdeithasol, a'r rhai sy'n sefyll gerllaw yn cynnig cefnogi'r dioddefwr. Roedd cysylltiadau arwyddocaol rhwng yr ymddygiad a welwyd a'r rhai sy'n sefyll gerllaw yn adrodd yn swyddogol am y digwyddiad[7], $X^2$ (5, N=186) = 22.448, p <.001, a'r rhai sy'n sefyll gerllaw yn cynnig cefnogi'r dioddefwr, $X^2$ (5, N=186) = 13.336, p=.020. Mae rhai sy'n sefyll gerllaw yn fwy tebygol o adrodd yn swyddogol am y digwyddiad os ydynt yn dyst i reolaeth drwy orfodaeth (25.4%), bygythiadau (76.9%) neu drais corfforol (36%) yn hytrach na mathau eraill o DVA. Cynnig i gefnogi'r dioddefwr oedd y math mwyaf cyffredin o ymddygiad rhai sy'n sefyll gerllaw a adroddwyd gan gyfranogwyr, gyda 104 yn nodi eu bod wedi gwneud hyn (gweler atodiadau, Tabl 10).

Mae'r data'n dangos bod 96.2% o'r rhai sy'n sefyll gerllaw a gymerodd gamau yn gwybod bod rhywun arall yn ymwybodol o'r ymddygiadau DVA, o'i gymharu ag 87.2% nad oeddent yn gwybod bod rhywun arall yn ymwybodol o'r ymddygiad, ond yn dal i gymryd camau. Roedd hyn yn cynnig cysylltiad arwyddocaol arall rhwng rhai sy'n sefyll gerllaw yn cymryd camau a rhywun arall yn gweld yr ymddygiad, $X^2$(2, N=186) = 22.167, p<.001.

Esboniodd un cyfwelai fod ganddi bryderon am ymddygiad ei ffrind ond nad oedd yn siŵr. I'w helpu i benderfynu a ddylid dweud rhywbeth, daeth o hyd i gynghreiriaid. Gyda ffrindiau eraill, fe esboniodd ei phryderon, gan ganfod bod ei ffrindiau eraill hefyd wedi sylwi ar yr arwyddion rhybudd ac, gyda'i gilydd, gwnaethant lunio cynllun.

**Mae'r data'n dangos bod 96.2% o'r rhai sy'n sefyll gerllaw a gymerodd gamau yn gwybod bod rhywun arall yn ymwybodol o'r ymddygiadau DVA**

## Cymhellion a Rhwystrau

Rhannodd dwy ran o dair (65.6%) o gyfranogwyr yr arolwg y cymhellion a brofwyd ganddynt wrth weld rheolaeth drwy orfodaeth. Y prif gymhelliant i gymryd camau oedd bod y rhai sy'n sefyll gerllaw yn teimlo'n gyfrifol (N=122), wedi'i ddilyn yn agos gan gydnabod bod yr ymddygiad yn broblemus ac yn anghywir (N=118). Nododd wyth cyfranogwr eu bod wedi cymryd camau am "resymau personol". Roedd y rhesymau personol yn cynnwys gallu cydymdeimlo â'r dioddefwr o brofiad personol a chael eu tramgwyddo'n bersonol.

I'r gwrthwyneb, y prif rwystrau i gymryd camau oedd methu â nodi'r sefyllfa fel problem (6 allan o 24) ac diffyg sgiliau i ymyrryd (4 allan o 24). Ni roddodd 14 o gyfranogwyr na wnaethant gymryd camau unrhyw reswm pam.

Dangosodd dadansoddiad data berthynas arwyddocaol rhwng llawer o nodweddion rhai sy'n sefyll gerllaw a'r cymhellion a'r rhwystrau unigol i gymryd camau. Er enghraifft, roedd ymatebwyr yr arolwg a ddywedodd eu bod am helpu aelodau o'u cymuned yn llawer mwy tebygol o ddweud hefyd eu bod wedi helpu'r dioddefwr am eu bod yn cydnabod bod y sefyllfa'n broblemus neu'n gwybod beth i'w wneud i helpu. Dengys Tabl 1 y cysylltiadau ystadegol arwyddocaol eraill (gweler atodiadau, Tabl 11 am ddadansoddiad llawn).

**"Roedd y weithred honno o gywain gwybodaeth i weld beth a ddywedwyd wrth bobl eraill i weld beth yr oeddent hwy wedi sylwi arno yn hytrach nag edrych yn rhywle penodol am wybodaeth am sut i ddelio ag ef, roedd yn fwy o achos o ddarganfod beth oedd eu profiadau ohono fel fy mod i'n gwybod bod mwy iddo na dim ond fi'n meddwl y gwaethaf... gwnaethom geisio cynllunio beth oedd y ffordd orau o'i reoli yn ein tyb ni"** [Cyfweliad 3]

[7] I'r heddlu, elusen DVA, gwasanaethau cymdeithasol etc.

**Tabl 4: Perthnasoedd arwyddocaol rhwng nodweddion rhai sy'n sefyll gerllaw a chymhellion/rhwystrau i weithredu**

| Rhai sy'n Sefyll Gerllaw | Cymhelliad |
|---|---|
| Rwyf am helpu aelodau o'm cymuned (person rhag-gymdeithasol) | Cydnabod bod yr ymddygiad yn broblemus (p=.008)<br><br>Medu ar sgiliau cywir (p=.027) |
| Gwybodaeth person sy'n sefyll gerllaw am gyfreithiau DVA | Meddu ar sgiliau cywir (p<.01) |
| Cwrs neu hyfforddiant wedi'i wneud ar DVA yn ystod y 5 mlynedd diwethaf | Meddu ar sgiliau cywir (p<.01) |
| Ymwybyddiaeth o DVA yn rhan o rôl alwedigaethol | Meddu ar sgiliau cywir (p=.001) |
| Teimlo'n fwy cysylltiedig â'r gymuned ers dechrau'r pandemig | Meddu ar sgiliau cywir (p=.004) |

| Nodweddion Rhai sy'n Sefyll Gerllaw | Rhwystrau |
|---|---|
| Gwybodaeth am DVA | Anwybodaeth luoseddol (nid oedd pobl eraill yn ymddangos yn bryderus neu nid oedd y rhai sy'n sefyll gerllaw yn siŵr a fyddai pobl eraill yn eu cefnogi) (p=.032) |
| Teimlo'n fwy cysylltiedig â'r gymuned ers dechrau'r pandemig | Ofn dial (p=.027) |

Nododd pob un o'r cyfranogwyr a nododd eu bod wedi cymryd camau (N=163) hefyd iddynt deimlo bod ganddynt y sgiliau cywir i wybod beth i'w ddweud neu ei wneud. Mae meddu ar y sgiliau cywir yn bwysig wrth fod yn rhywun sy'n sefyll gerllaw rhag-gymdeithasol, fel yr eglurodd cyfranogwyr y cyfweliad,

**“Os ydych chi'n dweud y peth anghywir wrthyn nhw, gall gael yr effaith andwyol i'r hyn rydych chi'n ceisio'i wneud fel bod yn rhaid i chi gau eich ceg a bod mor ofalus gyda'r hyn rydych chi'n ei ddweud a'i wneud"** [Cyfweliad 2]

**“Mae'r fenyw hon sydd ag anghenion enfawr ei hun, felly yr hyn yr oeddwn am dynnu sylw iddo yw cyn i chi ddweud mewn du a gwyn mai cyflawnwyr yw'r rhain a dioddefwyr yw'r rhain, mae hi'n fath o ddioddefwr. Felly dydw i ddim am ei thaflu i'r carchar... oni bai fy mod yn ei adrodd i'r heddlu, a fyddai'n greulon yn fy marn i, beth allaf ei wneud?"** [Cyfweliad 1]

Esboniodd un cyfwelai nad oedd wedi cymryd unrhyw gamau mewn ymateb i'r cam-drin yr oedd wedi'i weld am nad oedd yn gwybod sut i adrodd am y person heb gynnwys yr heddlu. At hynny, mae hi'n esbonio bod gan rai cyflawnwyr anghenion seicolegol eu hunain a allai gael eu cydnabod gan y rhai sy'n sefyll gerllaw a'u hatal rhag cymryd camau pellach.

Eglurodd bron pob un o'r cyfranogwyr fod eu profiad o weld neu ddechrau pryderu am DVA ers dechrau'r pandemig wedi cael effaith negyddol ar eu lles corfforol, seicolegol, ariannol neu gymdeithasol. Dim ond 8.1% o'r ymatebwyr a deimlai fod eu profiad wedi cael effaith gadarnhaol arnynt. Pan ofynnwyd a fyddent wedi hoffi gwneud mwy mewn ymateb i'w pryderon, dywedodd 50% o'r cyfranogwyr "na" ac ni fu i 10% arall ateb y cwestiwn.

Ar y cyfan, nododd y 40% arall y byddent wedi hoffi cefnogi'r dioddefwr neu wedi adrodd am y digwyddiad i gyrff swyddogol. Nododd 75% o'r ymatebwyr iddynt gredu y byddai cael hyfforddiant ar sut i helpu mewn sefyllfaoedd sy'n gysylltiedig â DVA yn ddefnyddiol. Daeth hyn i'r amlwg hefyd yn ystod y cyfweliadau lle esboniodd un cyfranogwr:

**“Mae wedi chwarae ar fy meddwl lot, gan ailfeddwl, a wnes i ddweud y peth iawn? A wnes i wthio digon? A ddylwn i fod wedi gwthio mwy? A dweud ein bod yn poeni'n fawr, efallai fy mod wedi gwthio gormod drwy anfon y neges yn y lle cyntaf. Dw i wedi cwestiynu fy hun llawer"** [Cyfweliad 3]

### 4.5 'Pryfocio' rhywiaethol'

**Gofynnwyd i'r cyfranogwyr a oeddent wedi sylwi neu bryderu am bryfocio, jôcs, fideos neu ddatganiadau cyffredinol sy'n rhywiaethol neu'n chwarae ar rolau rhywedd hen ffasiwn ers i'r pandemig ddechrau.**

Atebodd ychydig dros hanner y cyfranogwyr **(56%) "na"** i'r cwestiwn hwn

O'r rhai a ddywedodd ie **(73 o bobl),** roedd y mwyafrif **(89.2%)** yn fenywod a oedd gartref yn bennaf yn ystod y pandemig **(70.3%)**

**Nododd ymatebwyr fod y rhan fwyaf o'r datganiadau problemus wedi'u gwneud gan ddynion.**

Yn gyffredinol, nododd rhai sy'n sefyll gerllaw eu bod **wedi cymryd camau (68.5% o 73 o bobl)** mewn ymateb i'r hyn yr oeddent wedi'i weld drwy ei adrodd gan eu bod yn cydnabod bod barn yr unigolyn yn amhriodol ac yn teimlo'n gyfrifol am wneud rhywbeth yn ei gylch.

**Nododd y 31% arall nad oeddent wedi cymryd camau** mai'r rhwystr i'w hymddygiad oedd nad oedd pobl eraill yn pryderu na'r pryder na fyddai eraill yn cefnogi eu gweithredoedd fel rhai sy'n sefyll gerllaw rhag-gymdeithasol.

### 4.6 'Pryfocio' ynghylch Trais Rhywiol a Domestig

**Gofynnwyd i'r cyfranogwyr a oeddent wedi sylwi arf neu ddechrau pryderu am ddangosyddion llafar neu ysgrifenedig sy'n cefnogi cam-drin domestig, rheoli a/neu frifo rhywun, neu gael gweithgarwch rhywiol gyda rhywun nad oedd yn ei ddymuno/na allai ei wrthod ers i'r pandemig ddechrau.**

Dywedodd **bron i dri chwarter y cyfranogwyr (71.8% o 163 o bobl) "na" i'r cwestiwn hwn.** Roedd y rhan fwyaf o'r rhai a **ddywedodd "ie" gartref yn bennaf yn ystod y pandemig** ac wedi sylwi eu bod yn gweld ymddygiad o'r fath yn fwy ers dechrau'r pandemig. Nodwyd bod y rhan fwyaf o'r cynnwys hwn yn cael ei rannu gan ddynion.

Ar y cyfan, **cymerodd y rhai sy'n sefyll gerllaw a fu'n dyst i hyn gamau yn ei erbyn (73.3% o 45) am eu bod yn cydnabod bod y safbwyntiau'n broblemus.** Y prif rwystr i'r rhai na wnaethant gymryd camau oedd iddynt dybio nad oedd ganddynt y set sgiliau gywir.

# 5.0 Trafodaeth

## 5.1 Canfyddiadau Allweddol

Defnyddiodd yr hysbysebion ar gyfer yr arolwg yr ymadrodd 'cam-drin domestig' yn benodol (gweler adran 3.6) ac felly gallai fod wedi signalu i ddarpar gyfranogwyr y dylai fod ganddynt ryw lefel o wybodaeth am gam-drin domestig er mwyn cymryd rhan. O ystyried yr ymddengys mai cyfrannwr pwysig at gymryd rhan yn yr arolwg yw'r ddealltwriaeth o DVA (gweler adran 4. 1), efallai nad oedd y rhai heb wybodaeth am DVA yn cydnabod ymddygiadau problemus a/neu fod eu profiadau rhai sy'n sefyll gerllaw yn rhai gysylltiedig â DVA, ac felly nid oeddent yn credu bod cymryd yr arolwg yn berthnasol iddynt. Felly, er i gwestiynau'r arolwg eu hunain archwilio'r ymddygiadau cymhleth a lluosog sy'n ffurfio cam-drin domestig, roedd recriwtio i'r arolwg yn y lle cyntaf yn dibynnu ar y cyhoedd yn uniaethu â'r disgrifydd byr mewn hysbysebion recriwtio.

Ni all yr hysbysebion hyn yn ôl eu natur fod yn ddisgrifydd hir o'r mathau niferus o ymddygiadau sy'n gyfystyr â DVA. Mae recriwtio'r rhai sy'n dyst i DVA ond nad ydynt yn ymwybodol mai DVA y maent yn ei weld yn parhau i fod yn her sylfaenol i'r math hwn o ymchwil y mae angen ymchwilio ymhellach iddi.

Roedd menywod yn llawer mwy tebygol na dynion o gymryd rhan yn yr arolwg (gweler adran 4.1). Mae rhywfaint o dystiolaeth bod menywod yn gyffredinol yn fwy tebygol o gymryd rhan mewn arolygon na dynion (Smith, 2008). Fodd bynnag, gallai natur erledigaeth sy'n seiliedig ar rywedd, a'r ffaith mai menywod yn bennaf sy'n gweithio yn y sector trais yn erbyn menywod, hefyd esbonio'n rhannol pam y mae mwy o fenywod na dynion wedi llenwi'r arolwg.



**Tynnodd y rhan fwyaf o'r cyfranogwyr sylw at y ffaith iddynt deimlo bod y pandemig wedi caniatáu iddynt ddod yn ymwybodol o DVA a rheolaeth drwy orfodaeth, ac mai arwyddion rhybudd am DVA oedd yr ymddygiadau a adroddwyd amlaf yr oedd ymatebwyr yr arolwg wedi'u gweld.**

**Mae'n ymddangos bod ymdeimlad o gymuned yn ffactor pwysig wrth ddylanwadu ar y rhai sy'n sefyll gerllaw i gymryd camau. Mae gweithredu cymunedol wedi cynyddu yn ystod y cyfyngiadau a achoswyd gan COVID-19, a allai fod wedi annog ymatebion mwy rhag-gymdeithasol gan y rhai sy'n sy'n sefyll gerllaw.**

Tynnodd y rhan fwyaf o'r cyfranogwyr sylw at y ffaith iddynt deimlo bod y pandemig wedi caniatáu iddynt ddod yn ymwybodol o DVA a rheolaeth drwy orfodaeth, ac mai arwyddion rhybudd am DVA oedd yr ymddygiadau a adroddwyd amlaf yr oedd ymatebwyr yr arolwg wedi'u gweld (gweler adran 4.3 a Ffigur 1). Mae'r canfyddiad hwn yn ychwanegu pwysau at bryderon academaidd ac ymarferwyr arbenigol y gallai cyflawnwyr fod yn defnyddio'r pandemig i reoli bywydau cymdeithasol a dulliau gohebiaeth (ffôn, cyfrifiadur) dioddefwyr (yn fwy) (Gulati et al., 2020; Boxall et al., 2020). Mae'n ganfyddiad cadarnhaol bod rheolaeth drwy orfodaeth, a aeth yn drosedd ddim ond yn gymharol ddiweddar yn 2015, yn cael ei nodi gan hy rhai sy'n sefyll gerllaw.

Yn ddiddorol, roedd y rhai a ymatebodd i'r arolwg yn rhai sy'n cymryd camau yn bennaf hefyd: er i ni hysbysebu yn y cam recriwtio am brofiadau o fod yn dyst i ymddygiadau DVA, gwnaethom nodi hefyd fod y rhai sy'n cymryd camau yn llenwi'r arolwg (gweler adran 4.4). Er i'r rhan fwyaf o'r ymatebwyr nodi arwyddion rhybudd neu reolaeth drwy orfodaeth, dim ond y rhai a oedd wedi gweld cam-drin rhywiol neu gam-drin rhywun agored i niwed oedd yn sicr o gymryd camau yn ei erbyn (gweler adran 4.4). Gall hyn fod oherwydd difrifoldeb yr ymddygiad a welwyd. Awgryma Kofman a Garfin (2020) fod rhai sy'n sefyll gerllaw sy'n ystyried bod ymddygiad camdriniol yn anghyfreithlon neu'n bygwth bywyd yn llawer mwy tebygol o'i adrodd yn swyddogol i'r awdurdodau.

Roedd rhai sy'n sefyll gerllaw yn fwy tebygol o gymryd camau pan ddywedwyd wrthynt yn uniongyrchol gan y dioddefwr eu hunain, neu pan oeddent yn dyst i'r cam-drin yn uniongyrchol mewn perthynas agos. Roedd nifer cymharol fach o ymatebwyr i'r arolwg wedi gweld dyn yn cael ei gam-drin (gweler adran 4.4). Mae esboniadau amrywiol posib dros hynny. Mae'n bosib bod hyn o ganlyniad i'r rhai sy'n sefyll gerllaw beidio â chydnabod cam-drin dioddefwr gwrywaidd fel DVA. Mae'n bosibl hefyd na chynigir cymorth i ddynion gan rai sy'n sefyll gerllaw oherwydd normau cymdeithasol sy'n parhau â'r syniad nad yw DVA yn erbyn dyn "yr un mor ddifrifol" â DVA yn erbyn menywod (Warburton a Raiolo, 2020). Mae'n bosib hefyd, gan fod DVA yn drosedd ar sail rhywedd, nad yw dynion yn cael eu cam-drin mor aml gan adael llai o gyfle i rai sy'n sefyll gerllaw ei weld.

Meddu ar wybodaeth, medru nodi bod ymddygiad yn broblemus, ymgymryd ag ymdeimlad o gyfrifoldeb, a bod yn hyderus wrth feddu ar y sgiliau cywir yw'r camau hollbwysig i fod yn rhywun sy'n sefyll gerllaw rhag-gymdeithasol a chymryd camau (Latané a Darley, 1979; Berkowitz, 2009). Yn ddiddorol, mae ein data yn gyson â hyn (gweler adran 4.4). Cymerodd y mwyafrif llethol gamau. Mae'r canfyddiadau'n dangos i gyfranogwyr deimlo'n gyfrifol a chydnabod bod yr ymddygiad yn broblemus. Dylid nodi i'r data ddangos hefyd mai rhwystr allweddol i gymryd camau oedd peidio â chydnabod bod yr ymddygiad yn broblemus. At hynny, amlygwyd bod meddu ar y sgiliau cywir yn ffactor ysgogi hollbwysig gan i'r holl gyfranogwyr a fu'n ymyrryd deimlo bod ganddynt y sgiliau i wneud hynny. Ymddengys hefyd fod ymdeimlad o gyfrifoldeb yn cynyddu pan fydd y dioddefwr yn dweud eu hunain wrth y rhai sy'n sefyll gerllaw, neu fod y rhai sy'n sefyll gerllaw yn dyst i'r cam-drin yn uniongyrchol.

Mae'n ymddangos bod ymdeimlad o gymuned yn ffactor pwysig wrth ddylanwadu ar y rhai sy'n sefyll gerllaw i gymryd camau. Fel a archwiliwyd yn adran 4.4, roedd ymdeimlad cynyddol o gymuned yn gysylltiedig â nifer o ffactorau ysgogol ar gyfer ymatebion rhai sy'n sefyll gerllaw i DVA. Mae gweithredu cymunedol wedi cynyddu yn ystod y cyfyngiadau a achoswyd gan COVID-19, a allai fod wedi annog ymatebion mwy rhag-gymdeithasol gan y rhai sy'n sy'n sefyll gerllaw. Mae'r cysylltiad rhwng ymdeimlad o gymuned cymunedol ac ymddygiad rhai sy'n sefyll gerllaw rhag-gymdeithasol eisoes wedi'i sefydlu (Banyard et al., 2020; McMahon et al, 2015; Gweler adran 2.2).

Wrth gymryd camau ar DVA, mae rôl erledigaeth flaenorol i'w gweld yn bwysig: mae bod yn ddioddefwr/goroeswr eich hunan yn symbylydd i weithredu (gweler adran 4.4). Gall y rhai sydd wedi goroesi DVA eu hunain deimlo ymdeimlad cryfach o uniaethu (ar sail profiad) â'r dioddefwr. Mae'r llenyddiaeth yn awgrymu bod uniaethu'n rhagfynegydd arwyddocaol o ymddygiad rhai sy'n sefyll gerllaw (Christensen a Harris, 2019; Muralidharan a Kim, 2019). Pan fydd goroeswr yn cefnogi dioddefwr, gall ddilysu'r cynnydd y maent wedi'i wneud a rhoi ymdeimlad o asiantaeth iddynt (Gregory et al., 2016). At hynny, gall y rhai sydd wedi goroesi DVA hefyd fod yn hyderus yn eu set sgiliau i gynnig cymorth i bobl. Roedd meddiant hunanganfyddedig ar y sgiliau hefyd yn wir am y rhai sy'n gweithio yn y maes gyda hyfforddiant DVA perthnasol, a'r rhai a oedd wedi gwneud hyfforddiant, yr oedd pob un ohonynt yn fwy tebygol o gymryd camau.

Mae gweithredu normau cymdeithasol hefyd yn ymddangos yn bwysig yn ein canfyddiadau (gweler adran 4.4). Pan oedd rhywun arall yn ymwybodol o'r gam-drin, roedd y rhai sy'n sefyll gerllaw yn fwy tebygol o ymyrryd, waeth pa mor aml yr oeddent yn ei weld. Gellid priodoli hyn i ddamcaniaethau normau cymdeithasol mewn dwy ffordd. Yn gyntaf, mae consensws bod yr ymddygiad yn anghywir yn grymuso'r rhai sy'n sefyll gerllaw i weithredu gan wybod y byddant yn cael eu cefnogi ac, yn ail, y gall pwysau gan gymheiriaid wneud i rai sy'n sefyll gerllaw wneud yr hyn a ddisgwylir yn gymdeithasol pan fydd rhywun mewn angen (Brown a Messman-Moore, 2010; Fenton et al., 2019). I'r gwrthwyneb, mae'r data hefyd yn dangos, pan nad oedd unrhyw dystion eraill, fod rhai sy'n sefyll gerllaw yn fwy tebygol o gymryd camau ar ôl gweld yr ymddygiad nifer o weithiau; po fwyaf o weithiau y'i gwelwyd, y mwyaf tebygol y byddent o wneud rhywbeth (yn gyson â Rowe, 2018).

Er bod cyfranogwyr yn cael eu hysgogi i ymyrryd, roedd gan fod yn rhai sy'n sefyll gerllaw rhag-gymdeithasol effaith negyddol sylweddol arnynt fel unigolion (gweler adran 4.4). Gall cymryd camau adael y rhai sy'n sefyll gerllaw yn ailystyried eu gweithredoedd a theimlo'n euog am beidio â gweithredu'n gynt. Mae hyn yn gyson â'r llenyddiaeth lle mae rhai sy'n sefyll gerllaw yn aml yn profi effaith seicolegol negyddol o gefnogi dioddefwr DVA a chlywed manylion y cam-drin a ddioddefwyd (Gregory et al., 2016). Eglurodd y rhai a gymerodd ran mewn cyfweliadau nad oeddent yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi, fel dioddefwyr ac fel rhai sy'n sefyll gerllaw, a allai fod wedi bwydo i mewn i'w profiad negyddol o fod yn rhai sy'n sefyll gerllaw. Mae'n ymddangos yn groesebol, pan ofynnwyd a fyddent wedi hoffi gwneud mwy neu wneud rhywbeth yn wahanol, fod y rhan fwyaf wedi dweud na, tra'n adrodd ar yr un pryd ar effeithiau negyddol yn sgil y camau y gwnaethant eu cymryd. Fodd bynnag, ynghyd â'r canfyddiad y byddai'r mwyafrif yn gweld hyfforddiant rhai sy'n sefyll gerllaw yn ddefnyddiol, gellir egluro'r gwrthddywediad hwn gan y ffaith nad oedd yr amrywiaeth eang o strategaethau ac opsiynau rhai sy'n sefyll gerllaw yn hysbys iddynt ac felly nid oedd ganddynt unrhyw opsiynau i weithredu'n wahanol. At hynny, nod hyfforddiant rhai sy'n sefyll gerllaw yw cynyddu hyder mewn set sgiliau newydd a chymorth dros gymryd camau a allai leddfu rhai o'r effeithiau negyddol megis ail-ddyfalu ac amheuaeth ynghylch gwneud y peth iawn (gweler adran 2.3).

Esboniodd y rhai sy'n sefyll gerllaw y cyfwelwyd â hwy nad oeddent yn aml yn gwybod ble i roi gwybod am eu pryderon ac y gallai dod o hyd i'r cyngor cywir ar-lein fod yn llafurus (gweler adran 4.4). Mae rhai sy'n sefyll gerllaw yn fwy tebygol o adrodd am eu pryderon os ydynt yn gwybod sut i wneud hynny, os ydynt yn gwybod y byddant yn cael eu credu ac os ydynt yn gwybod na fydd unrhyw ôl-effeithiau arnynt hwy eu hunain (Borum, 2013; Rowe, 2018). Ar ddechrau'r pandemig, cyhoeddodd Sefydliad Iechyd y Byd ganllawiau i'r rhai sy'n llunio polisi yn eu hannog i sicrhau bod aelodau o'r cyhoedd yn gwybod pa wasanaethau oedd ar gael iddynt o hyd o ran DVA (Pearson et al., 2021). Fodd bynnag, teimlwyd effaith y pandemig hefyd gan gyfranogwyr nad oeddent yn siŵr i ba raddau y gallent helpu'r dioddefwr oherwydd cyfyngiadau'r llywodraeth. Mae hyn yn cysylltu â chynyddu ymwybyddiaeth cymunedau o'r gwasanaethau sydd ar gael, gan wneud y gwasanaethau hyn yn hawdd eu cyrraedd a chynnig sicrwydd pan fydd rhai sy'n sefyll gerllaw yn cyflwyno pryderon (Pearson et al., 2021; Bradbury-Jones ac Isham, 2020).

**Mae'r canfyddiadau hyn yn cynnig mewnwelediad rhagarweiniol i brofiadau rhai sy'n sefyll gerllaw o DVA yn ystod y pandemig COVID-19 yng Nghymru, ac eto mae rhai cyfyngiadau ar yr astudiaeth hon y mae angen eu cymryd i ystyriaeth wrth ystyried y canfyddiadau.**

## 5.2 Cyfyngiadau

Yn gyntaf, cyflwynwyd yr arolwg ar-lein drwy'r llwyfan ar y we, Qualtrics. Bu i hyn gyfyngu ar gyfranogiad i ddefnyddwyr y rhyngrwyd. Mae'n bosib bod data ar goll gan bobl nad ydynt efallai'n defnyddio'r rhyngrwyd a'r cyfryngau cymdeithasol, neu gan unigolion y mae eu mynediad i'r fath lwyfannau'n gyfyngedig.

Roedd gan yr arolwg gyfradd dynnu allan uchel, sef cyfranogwyr a rodd orau i lenwi'r holiadur rhan o'r ffordd drwodd (gweler adran 4.1). Mae hyn o bosib o ganlyniad i'r ymrwymiad amser hir sydd ei angen i gwblhau'r arolwg, neu gellid ei briodoli i flinder cyfranogwyr.  At hynny, mae'n bosib bod rhai sy'n sefyll gerllaw wedi gweld DVA cyn y pandemig, ac wrth iddynt gyrraedd yr adran "DVA a welwyd yn ystod y pandemig", roeddent yn teimlo nad oedd eu profiadau'n berthnasol mwyach, ac felly wedi cau'r arolwg. Yn yr un modd, efallai na fu cyfranogwyr yn ymwybodol bod yr arolwg wedi'i anelu at bobl a oedd wedi gweld DVA a, chan nad oedd dewis ar gyfer "heb fod yn dyst i DVA", na allent barhau. Dylid ystyried hyn wrth i'r arolwg gael ei ailadrodd yn y dyfodol.

Wrth ddylunio'r arolwg, roedd y tîm yn ofalus i beidio â defnyddio'r ymadrodd "rhai sy'n sefyll gerllaw" gan nad oeddent yn siŵr y byddai aelodau o'r cyhoedd yn gwybod beth mae hyn yn ei olygu (gweler adran 3.6). Yn hytrach, anelwyd yr hysbysebion at unrhyw un a oedd wedi gweld neu ddechrau pryderu am DVA ers i'r pandemig ddechrau. Er gwaethaf ailddatgan bod yr arolwg wedi'i dargedu'n benodol at y rhai a oedd wedi gweld hyn ym mherthynas rhywun arall, mae'n debygol bod rhai dioddefwyr DVA wedi cwblhau'r arolwg. Nid oedd dau o gyfranogwyr y cyfweliad yn rhai sy'n sefyll gerllaw, roeddent yn ddioddefwyr, ac o'r farn bod yn rhaid geirio'r arolwg yn y fath ffordd i ddiogelu eu hunaniaeth. Mae'n bosib, felly, bod dioddefwyr eraill wedi tybio'r un peth ac wedi cwblhau'r arolwg. Yn anffodus, oni bai eu bod wedi datgan hyn yn benodol mewn un o'r blychau testun agored, nid oes modd gwybod.

Roedd gan y rhai a gymerodd ran mewn cyfweliadau wybodaeth dda am DVA drwy eu rolau proffesiynol neu eu profiad personol o fod yn goroeswr eu hunain. Er mai dim ond nifer fach o gyfweliadau a gynhaliwyd, mae'n awgrymu mai dim ond pobl â sydd â diddordeb cynyddol mewn mynd i'r afael â DVA oedd yn barod i rannu eu profiadau ymhellach. Roedd yr arolwg yn hir, a theimlodd cyfranogwyr yn teimlo'n flinedig erbyn iddynt gyrraedd y diwedd. Felly, gallai fod wedi bod yn ormod o faich i ofyn iddynt gysylltu â'r tîm ymchwil i gael gwybodaeth ychwanegol o ran y cyfweliad, yn hytrach na blwch ticio syml fel rhan o'r arolwg.

Yn ystod y cyfweliadau, gwnaeth rhai cyfranogwyr gymariaethau rhwng gweithredoedd Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru yn ystod y pandemig ac ymddygiadau cyflawnwyr, sef bod rhyddid y person wedi'i reoli a bod o dan gyfyngiadau o ran cyfyngu ar gyswllt â theulu a ffrindiau. Mae'n bosib bod ymatebwyr yr arolwg hefyd wedi gwneud y cyswllt hwn ac nad oeddent yn gwahaniaethu rhwng y ddau wrth nodi pa ymddygiadau yr oeddent wedi'i weld. Gallai hyn gyfrannu at reolaeth drwy orfodaeth fel yr ymddygiad DVA a gofnodwyd fwyaf (Ffigur 1) gan nad oedd cyfranogwyr yn canolbwyntio'n benodol ar DVA. Er enghraifft, fel a esboniodd un cyfranogwr cyfweliad;

**“Mae'r cyfnod ynysu hwn yn union fel bod yn y berthynas gamdriniol. Peidio â chael mynd allan, peidio â chael gweld eich ffrindiau, cael amodau llym ar eich bywyd. Yn y bôn, y llywodraeth yw'r cyflawnwr, o safbwynt goroeswyr"** [Cyfweliad 2]

Defnyddiodd yr astudiaeth hon sampl oportiwnistaidd a hunan-ddethol. Gall barn cyfranogwyr fod yn wahanol i eraill a oedd yn rhai sy'n sefyll gerllaw DVA, neu'r gymuned ehangach yn fwy cyffredinol. Bu i sefydliadau arbenigol sy'n cefnogi dioddefwyr BAME a chymunedau BAME ehangach gymryd rhan yn y gwaith o ledaenu'r arolwg. Er gwaethaf hyn, hunan-adnabuodd cyfran fawr o ymatebwyr yr arolwg, a'r holl gyfweleion, fel Gwyn Prydeinig (gweler adran 4.1). Er bod hyn yn gynrychioliadol ar y cyfan o boblogaeth Cymru, mae'n bosib na fydd y data'n cynrychioli profiadau'r rhai o gefndiroedd ethnig eraill. Yn yr un modd, ni wnaeth yr arolwg gofnodi unrhyw ymatebion gan y rhai dros 75 oed. Dylid ymchwilio ymhellach i sut i gael mynediad at grwpiau BAME a grwpiau oedran hŷn a allai fod yn anoddach eu cyrraedd mewn astudiaethau yn y dyfodol.

## 5.3 Camau Gweithredu yn y Dyfodol

Roedd yr astudiaeth beilot hon wedi'i lleoli o fewn y set unigryw o amgylchiadau a ddeilliodd o'r pandemig COVID-19 a'r cyfnodau clo a chyfyngiadau cymdeithasol cysylltiedig. Er y gallai efelychu'r union amodau ar gyfer yr astudiaeth hon fod yn anodd, nid yw dyluniad yr arolwg yn benodol i COVID, gan ganiatáu ar gyfer dyblygu mewn cyd-destunau nad ydynt yn ymwneud â pandemig. At hynny, gellir defnyddio'r dysgu o ddatblygu, cyflwyno ac adrodd ar yr astudiaeth hon y tu allan i'r pandemig COVID-19 gan fod cam-drin domestig yn argyfwng iechyd cyhoeddus parhaus nad yw'n unigryw i'r pandemig. Mae'r awgrymiadau canlynol yn seiliedig ar hyn.

### Dewisiadau o ran Polisi

Mae'r astudiaeth hon yn dangos bod gan y rhai sy'n sefyll gerllaw rôl bwysig o ran atal DVA yn sylfaenol. Dylid cydnabod hyn mewn polisi VAWDASV ac atal trais. Gall y camau a gymerir gan rai sy'n sefyll gerllaw rhag-gymdeithasol fod yn rhan hanfodol o fynd i'r afael â DVA ar lefel gymunedol. Dylai annog ymddygiad rhag-gymdeithasol, pan fydd yn ddiogel i wneud hynny, fod yn flaenoriaeth yn gyffredinol ac yn enwedig yn ystod pandemig neu sefyllfaoedd brys eraill, pan nad yw gwasanaethau mor hygyrch. Gallai'r rhai sy'n llunio polisi ystyried defnyddio ymgyrchoedd ymwybyddiaeth gyhoeddus a hyfforddiant i hyrwyddo gwybodaeth am DVA, ac ymddygiad rhai sy'n sefyll gerllaw rhag-gymdeithasol a gwybodus. Gallai hyn helpu i fynd i'r afael â'r rhwystrau i rai sy'n sefyll gerllaw gymryd camau a lliniaru unrhyw effaith negyddol y gallai'r profiad ei chael ar y rhai sy'n sefyll gerllaw eu hunain (gweler adran 4.4).

Mae gwersi o'r ymchwil hon yn awgrymu y dylai ymgyrchoedd rhai sy'n sefyll gerllaw cyhoeddus fod yn amlweddog ac y dylent gael eu hategu gan godi ymwybyddiaeth a gwybodaeth am yr hyn sy'n gyfystyr â DVA ar gyfer cynulleidfa gyhoeddus. Fel a nodwyd yn adran 4.4, roedd y rhan fwyaf o'r cyfranogwyr wedi gweld ymddygiadau DVA mewn perthnasoedd agos, pan oedd y cyflawnwr yn ddyn, a'r dioddefwr yn fenyw. Dylai ymgyrchoedd bwysleisio y gall cam-drin ddigwydd mewn amrywiaeth o berthnasoedd, waeth beth fo'u hunaniaeth o ran rhywedd, rhywioldeb, oedran, ethnigrwydd etc. Dylid egluro'r amrywiaeth o ymddygiadau DVA er mwyn cynyddu'r tebygolrwydd o nodi ymddygiad niweidiol; o arwyddion rhybudd i reolaeth drwy orfodaeth a cham-drin corfforol.

Dylai'r rhai sy'n llunio polisi ystyried sut y gallant ymgysylltu â chynulleidfaoedd targed gwahanol o ran cynyddu gwybodaeth ac ymwybyddiaeth, ac fel rhai sy'n sefyll gerllaw rhag-gymdeithasol. Yn benodol, fel a nodwyd yn adran 4.1, menywod oedd y rhan fwyaf o'r cyfranogwyr yn yr astudiaeth hon. Dylid rhoi sylw arbennig i sicrhau bod dynion yn cymryd rhan mewn ymdrechion rhai sy'n sefyll gerllaw. Dylai ymgyrchoedd codi ymwybyddiaeth anelu at gynyddu ymdeimlad o gyfrifoldeb a chymhelliant i weithredu ac felly dod gyda chynnig o hyfforddi rhai sy'n sefyll gerllaw seiliedig ar dystiolaeth i alluogi a grymuso rhai sy'n sefyll gerllaw i symud (yn ddiogel) drwy ddamcaniaeth newid ymddygiad (gweler adran 5.1).

Nododd y data y canfuwyd bod ymdeimlad o gymuned yn rhagfynegydd sylweddol y byddai rhai sy'n sefyll gerllaw yn cymryd camau rhag-gymdeithasol yn erbyn DVA (gweler adran 4.4). Mae ymchwil arall wedi awgrymu bod gweithredu cymunedol wedi cynyddu yn ystod y cyfyngiadau a osodwyd gan Covid-19 a allai fod wedi annog mwy o weithredu gan rai sy'n sefyll gerllaw. Felly, gallai polisïau anelu at feithrin, cynnal ac annog yr ymdeimlad hwn o gymuned ymhellach fel ffactor cyfrannol, gan gymell rhai sy'n sefyll gerllaw i gymryd camau yn erbyn DVA.

## Dewisiadau o ran Arfer

Dangosodd yr ymchwil fod galw am raglenni hyfforddi a gwybodaeth rhai sy'n sefyll gerllaw amlweddog i rymuso a gwella sgiliau rhai sy'n sefyll gerllaw i gymryd camau rhag-gymdeithasol, hyd yn oed gan y rhai sydd eisoes yn meddu ar wybodaeth ac sydd wedi cael hyfforddiant (gweler adran 4.4). Mae'n rhaid i raglenni hyfforddi rhai sy'n sefyll gerllaw fod yn seiliedig ar dystiolaeth a damcaniaeth (Fenton a Mott, 2017). Dylent fynd â phobl drwy'r broses newid gan gynnwys: ymwybyddiaeth a chydnabyddiaeth o rywedd yn natur DVA ar ei holl ffurfiau; cyd-destunau diwylliannol, rolau rhywedd a gwrywdod problemus sy'n sail i DVA ac yn ei ategu; effeithiau ac empathi; ymdeimlad o gyfrifoldeb, cymhelliant a hyder i weithredu, a dysgu sgiliau.

Dylid ymgorffori damcaniaeth normau cymdeithasol mewn rhaglenni, deunyddiau ac ymgyrchoedd hyfforddi rhai sy'n sefyll gerllaw. Am enghraifft o raglen hyfforddi rhai sy'n sefyll gerllaw ar gyfer cymunedau'n gyffredinol, gweler yr ymyriad DVA rhai sy'n sefyll gerllaw, Active Bystander Communities (gweler adran 2.3). Fel a nodwyd yn adran 4.4, mae teimlad y rhai sy'n sefyll gerllaw eu bod yn meddu ar y set sgiliau gywir i weithredu yn hanfodol. Gellid ymgorffori amrywiaeth o ymatebion rhai sy'n sefyll gerllaw yn yr ymgyrchoedd, y deunyddiau a'r rhaglenni hyfforddi rhai sy'n sefyll gerllaw, gan gynnwys cefnogi'r dioddefwr, mynd i'r afael ag ymddygiad y cyflawnwr/ camdriniwr[8] ac annog y defnydd o wasanaethau (er enghraifft, gwasanaethau cymorth, yr heddlu). Am enghreifftiau o arfer da, gweler Snowdon et al. (2020). Gellid cyflwyno'r rhain ar draws cymunedau i gefnogi rhai sy'n sefyll gerllaw fel elfen hanfodol wrth atal DVA yn sylfaenol, yn y pandemig a'r tu hwnt iddo.

